

# CADW'N DDIOGEL?

Dadansoddiad o ganlyniadau  
gwaith gyda phobl ifanc yng  
Nghymru sydd wedi dioddef  
camfanteisio rhywiol

Adroddiad Ymchwil Terfynol  
Hallett, S., Verbruggen, J.,  
Buckley, K., and Robinson, A.

2019, Prifysgol Caerdydd.

# CYDNABYDDIAETH

Yn gyntaf, diolch i'r awdurdod lleol a gydweithredodd â ni ar y syniad ar gyfer y prosiect ac a gefnogodd y gwaith ymchwil hwn. Ni allwn enwi unigolion am resymau cyfrinachedd, ond rydym yn ddiolchgar am yr ymddiriedaeth a chymorth proffesiynol a roddwyd i ni yn ystod y pedair blynedd diwethaf er mwyn sicrhau bod y gwaith ymchwil hwn yn bosibl.

Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i bawb a gyfrannodd at y gwaith ymchwil hwn. Diolch am roi o'ch amser a rhannu eich teimladau a phrofiadau â ni, gyda'r nod o wella bywydau pobl ifanc sy'n profi niwed ac yn derbyn gofal. Diolch arbennig i'r bobl ifanc a gymerodd ran ac am ganiatáu i ni ddod i mewn i'ch cartref. Gobeithio ein bod wedi gwneud cyfiawnder â'r profiadau a rannwyd a'r hanesion a roddwyd.

Diolch yn fawr i'r bobl ifanc yn Voices from Care a oedd yn gysylltiedig â grŵp llywio'r prosiect mewn ffyrdd amrywiol. Diolch hefyd i Chris Dunn.

Llawer o ddiolch i aelodau'r grŵp cynghori ac i gydweithwyr ar hyd a lled Cymru a

gefnogodd y gwaith ymchwil hwn a chyfrannu at ddatblygu'r deunyddiau a'r adnoddau a gynhyrchwyd: Dr Sam Clutton, Jan Coles, Matt Sedgebeer, Alison Mott, Heather Heaney, Sally Jenkins, Jade Handley, a Jade Harrison.

Diolch yn fawr i'r Rhwydwaith Maethu – yn enwedig Charlotte Wooders a Colin Turner – am helpu i gefnogi'r gwaith o gynnwys gofaluwyr maeth yn y gwaith ymchwil.

Llawer o ddiolch i Laura Sorvala yn Laurasorvala.com am yr holl waith celf a dylunio graffeg ar gyfer y prosiect.

Diolch i Asma Khan yn Total Transcriptions, yn enwedig am weithio dros y Nadolig.

Mae angen i ni ddiolch i nifer o gydweithwyr ym Mhrifysgol Caerdydd: Zoe Wrigley; Kat Deerfield; Katie Bodinger a Geraint Evans. Diolch hefyd i Louisa Roberts; Laura Cook; Dawn Mannay a Donald Forrester.

Ariannwyd y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Diolch i gydweithwyr yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru am ariannu a chefnogi'r prosiect.



# CYFLWYNIAD

Roedd 'Cadw'n Ddiogel?' yn ymchwiliad empirig tair blynedd o hyd a ddefnyddiodd ddulliau cymysg i edrych ar achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Nod yr astudiaeth oedd cynnal ymchwiliad gwreiddiol i ganlyniadau plant a phobl ifanc a aseswyd fel pobl 'mewn perygl' o ddiodef camfanteisio rhywiol, yn ogystal ag edrych ar y ffordd orau o gefnogi pobl ifanc wrth ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a'r heriau cysylltiedig wrth wneud hynny.

Cyflwynodd yr ymchwil gyfle unigryw i olrhain y canlyniadau i bobl ifanc dros ddeng mlynedd, drwy gael mynediad at ffeiliau achos a oedd yn berthnasol i bobl ifanc a oedd yn ymwneud â Gwasanaethau Plant Cymru yn 2006, y cafodd eu hachosion eu hadolygu'r flwyddyn honno fel rhan o ymarfer i ddatblygu'r Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF) yng Nghymru.

Hwn oedd y tro cyntaf yn y DU y cafodd yr holl blant a phobl ifanc rhwng 9 a 18 oed a oedd yn ymwneud â Gwasanaethau Plant ledled un awdurdod lleol eu hasesu'n unigol am eu risg o ran camfanteisio'n rhywiol.

Roedd y dull ymchwilio a ddefnyddiwyd yn cyfuno dadansoddiad thematig o ffeiliau achos, a chodio meintiol o bob ffeil achos er mwyn creu set ddata hydredol gyfoethog i'w dadansoddi. Roedd rhan sylweddol o'r ymchwil yn cynnwys gwaith ymchwil ansoddol ac ethnograffig gyda phobl ifanc, ymarferwyr a gofalwyr maeth.

## Cefndir a chyd-destun

Saif y gwaith ymchwil o fewn maes datblygu polisi, ymarfer a dealltwriaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Er nad yw'r math hwn o gam-drin plant a phobl ifanc yn newydd yn ei hunan, mae 'camfanteisio'n rhywiol ar blant' yn destun pryder cymharol ddiweddar yn y maes gofal cymdeithasol – un a gyflwynwyd yn ffurfiol mewn polisiau ac arferion gofal cymdeithasol yn gyntaf yn y DU yn 2009, gyda pholisiau a chanllawiau perthnasol (a gwahanol) cenhedloedd y DU

i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc.

Roedd Cymru'n flaenllaw mewn ymarfer gofal cymdeithasol a oedd yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn y DU, gan arwain protocol cenedlaethol ar sut i nodi pobl ifanc mewn perygl o'r math hwn o gamdriniaeth, a'r ymateb diogelu y dylid ei roi ar waith pan fyddai pryderon yn codi (gweler Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008; 2011). Saif SERAF o fewn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, ac mae'n gweithredu ar sail nodi pa mor agored i niwed yw pobl a ffactorau risg sefydledig sy'n cyfuno i greu sgôr risg. Mae'r sgôr yn pennu'r categori risg a'i gamau diogelu cysylltiedig. Nid oes angen gweithdrefnau ffurfiol ar y rhai hynny â sgôr 'risg fechan', ond dylid canolbwyntio ar waith atal. Pan fydd y sgôr yn 'risg gymedrol' neu 'risg sylweddol', dylid cynnal cyfarfod strategaeth amlasiantaeth lle y dylid trefnu cynllun amddiffyn ffurfiol. Datblygiad cynnar y broses hon o asesu camfanteisio'n rhywiol ar blant yn 2006 sydd wedi darparu'r cyfle ar gyfer y gwaith ymchwil hwn.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw ymatebion nac ymyriadau gwasanaeth penodol wedi'u hamlinellu o fewn y protocol, ac mae'r adolygiad diweddar o'r SERAF wedi nodi y gallai asesu'r risg fod yn gam terfynol yn ei hun, heb lawer o sylw'n cael ei roi i gynllunio'r canlyniadau i bobl ifanc (gweler Hallett ac eraill, 2017). Daethpwyd i ganfyddiadau tebyg mewn gwaith ymchwil a oedd yn edrych ar y dulliau o asesu risg yn Lloegr (gweler Franklin ac eraill, 2018). Gwnaeth yr un adolygiad o ganllawiau a SERAF Cymru nodi pryderon ymhlith ymarferwyr fod y risgiau yn yr offeryn asesu'n rhoi gormod o bwys ar ymddygiad pobl ifanc, a bod pobl ifanc yn cael eu colli, neu eu hasesu'n ormodol ac, mewn perthynas â hyn, fod yr offeryn yn llywio ymatebion (yn anfwriadol) tuag at ymdrin ag 'ymddygiadau peryglus' pobl ifanc, nad oedd yn ddigonol fel mesur cymorth hirdymor.

Mae swm sylweddol o lenyddiaeth yn dadlau bod camfanteisio'n rhywiol yn broblem amlweddol sydd angen ymatebion lluosog

(gweler Kerrigan-Lebloch a King, 2006; Appleton, 2013), ond mae llawer llai o ddealltwriaeth ar gael o ba mor effeithiol yw'r ymatebion hyn o ran creu newid cadarnhaol, neu o'r heriau ymarferol sy'n ymwneud â chefnogi pobl ifanc yn y ffyrdd hyn. Mae ymchwil wedi dangos ei bod yn bosibl na fydd camau amddiffynnol tymor byr a gymerir i gefnogi pobl ifanc yn arwain at ganlyniadau gwell yn yr hirdymor os nad ydynt yn ymateb yn ddigonol i anghenion ehangach pobl ifanc ac yn mynd i'r afael â'r rhain (Gweler er enghraifft, Brown, 2017; Hallett, 2017). Yn yr un modd, mae ymchwil wedi awgrymu'n gyson y gall ymatebion amddiffynnol, a fwriadwyd i gefnogi a helpu pobl ifanc, fod yn ffactorau risg yn eu hunain (O'Neill ac eraill, 2001; Creegan ac eraill, 2005; Pearce, 2007). Nid yw diffinio pobl ifanc fel dioddefwyr camdriniaeth sydd angen eu hamddiffyn yn creu canlyniadau gwell iddynt o reidrwydd, os daw'r bobl ifanc hynny'n destun dulliau amddiffyn sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n cosbi (gweler Shuker, 2013; a Brown 2019).

Mae astudiaethau fel y rhain yn amlygu problemau posibl gydag ymatebion y gwasanaeth, ond gan mai rhywbeth cymharol ddiweddar yw cyflwyno camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn polisiau ac ymarfer gofal cymdeithasol, ychydig iawn o gyfle sydd wedi codi i ystyried effeithiolrwydd offer asesu, ymyriadau ac ymatebion, neu i archwilio'r canlyniadau i bobl ifanc sy'n profi'r niweidiau hyn ac yn derbyn cymorth. Mae deall sut i baratoi ymarferwyr yn well i ymateb i bobl ifanc o'r fath a'u cefnogi yn hollbwysig, yn ogystal ag adnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny, yn enwedig yng nghyd-destun ehangach ymarfer diogelu ac amlasiantaeth.

## Methodoleg

Roedd y cynllun ymchwilio trosfwaol yn cyfuno dulliau meintiol ac ansoddol. Roedd nod y prosiect ymchwil yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Beth yw'r canlyniadau i bobl ifanc a nodir fel pobl 'mewn perygl' o gamfanteisio rhywiol?

2. Pa ddealltwriaeth sydd gan weithwyr proffesiynol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a beth yw ymatebion cysylltiedig y gwasanaeth/cymorth?
3. Pa ffactorau sy'n cyfrannu at leihau'r risg a chanlyniadau i bobl ifanc?
4. Sut mae gwasanaethau ac ymyriadau gofal cymdeithasol yn berthnasol i'r canlyniadau i bobl ifanc a nodwyd fel rhai sydd mewn perygl o ddioddef achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant?

## Dadansoddi ffeiliau achos

Fel yr amlinellwyd uchod, roedd yr ymchwil yn seiliedig ar sampl o ffeiliau achos ar gyfer carfan o bobl ifanc a oedd yn ymwneud â'r un awdurdod lleol. Trwy wneud dadansoddiad thematig ac ansoddol o sampl bwrpasol o ffeiliau achos (N=6) yn ôl y categori risg ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant a bennwyd gan SERAF yn yr ymarfer gwreiddiol yn 2006, cawsom gyfle i adolygu'r holl dystiolaeth ddogfennol a oedd yn ymwneud â phob unigolyn ifanc yn fanwl, o'r adeg y cafodd y ffeil ei dechrau hyd y daeth cysylltiad yr awdurdod lleol i ben. Defnyddiwyd y canfyddiadau o'r dull hwn yn bennaf i ddatblygu fframwaith codio manwl a chynhwysfawr, yn cynnwys: nodweddion demograffig, sefyllfa byw, perthynas â theulu a chyfoedion, profiadau o erledigaeth, anghenion cymhleth, rheolaeth yr achos, yr ymyriadau a'u heffaith, a'r canlyniadau pan gaewyd yr achos ac ar ôl hynny. Cafodd y fframwaith codio ei brofi a'i fireinio drwy ei gymhwyso i sampl fechan bellach o ffeiliau.

Wedi hyn, casglwyd data trwy godio ffeiliau achos yr holl garfan o blant a phobl ifanc (N=205) mewn modd meintiol, a oedd yn golygu y gallem gynnal astudiaeth fanwl o sampl gyflawn o'r garfan<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup>Roedd gan yr ymarfer adolygu gwreiddiol sampl garfan o 367. Roedd hyn yn seiliedig ar broses adolygu dall, ac roedd rhai plant a phobl ifanc yn gysylltiedig â'r agweddau gwahanol ar wasanaethau cymdeithasol ac felly'n dod i'r amlwg nifer o weithiau yn yr ymarfer gwreiddiol. Trwy edrych ar rifau'r ffeiliau achos, roeddem yn gallu pennu lle roedd ffeiliau dyblyg ar gyfer yr un unigolyn. Pan oedd hyn yn digwydd, a phan oedd y sgorau risg yn wahanol, gwnaethom dderbyn y sgôr risg uchaf a bennwyd yn yr ymarfer gwreiddiol.

Cafodd newidion eu codio ar gyfer pedwar cam, lle oedd yn berthnasol: cam un (cam cyn camfanteisio'n rhywiol ar blant), cam dau (cam camfanteisio'n rhywiol ar blant, lle y bo'n gymwys), cam tri (ar adeg cau'r achos) a cham pedwar (cysylltiad cyfredol â'r gwasanaethau cymdeithasol)<sup>2</sup>. Cafodd y gwaith codio ei wneud yn bennaf gan un ymchwilydd, a chafodd sampl ar hap o 20 o ffeiliau ei dewis a'i chodio ar gyfer dibynadwyedd rhyng-safonwr. Gwnaeth y dull ymchwilio hwn ein galluogi i adeiladu set ddata gyfoethog i ganiatáu i ni ddadansoddi'r berthynas rhwng y newidion o ran amserlenni allweddol, a'u pwysigrwydd, ac i ystyried effeithiolrwydd ymyriadau a chamau cynorthwyo yn ôl canlyniadau.

Roedd cam cyntaf y dadansoddiad yn archwiliol ei natur gan fwyaf. Cafodd dadansoddiadau disgrifiadol (e.e. amllder, cyfartaledd) eu cymharu ar draws y pedwar categori risg. O fewn y sampl o 205 o achosion, pennwyd yn wreiddiol fod bron hanner yr achosion hyn yn rhai heb risg (49.8%; N=102), 16.6% ohonynt yn rhai risg fechan (N=34), 15.6% yn rhai risg gymedrol (N=32) a 18.0% ohonynt yn achosion risg sylweddol (N=37). Golygai tebygrwydd amlwg fod achosion heb risg ac achosion risg fechan yn cael eu grwpio gyda'i gilydd mewn grŵp *risg isel* (N=136) a chyfunwyd yr achosion risg gymedrol a risg sylweddol i mewn i grŵp *risg uchel* (N=69). Gwneir cymariaethau hefyd rhwng pobl ifanc y gwelwyd arwyddion cryf eu bod yn profi camfanteisio'n rhywiol ar blant (N=54) a'r rhai hynny nad oeddent yn dangos arwyddion o'r fath (N=151). Defnyddiwyd dull dadansoddi atchweliad yn ystod ail gam y dadansoddi er mwyn archwilio'r berthynas rhwng newidion allweddol fel nodweddion, cydberthnasau teuluol, ffactorau 'risg' ac 'amddiffynnol', ymateb y gwasanaeth, a chanlyniadau. Gwnaeth hyn ein galluogi i nodi ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer y dyfodol sy'n berthnasol i gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac i ganlyniadau, ac i archwilio sut mae ymatebion gwasanaethau'n ymwneud â chanlyniadau gwell neu waeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Trwy godio'r garfan o ffeiliau achos mewn modd meintiol, rydym wedi gallu adeiladu set ddata hydredol

cymharol fawr a chyfoethog, gan gynnig cyfle i ddadansoddi'r data ymhellach ar ôl oes y prosiect cyfredol, er mwyn ateb cwestiynau ymchwil yn y dyfodol.

## Gwaith ymchwil ansoddol

Gwnaeth elfen ansoddol o'r astudiaeth ein helpu ni i fireinio ein dealltwriaeth o'r data meintiol drwy ddadansoddi safbwyntiau allweddol. Roedd yr ymchwil ansoddol yn ymwneud â phobl ifanc y mae pryderon yn eu cylch o ran camfanteisio'n rhywiol ar blant (N=6), ynghyd â gweithwyr proffesiynol amrywiol â phrofiadau o gefnogi pobl ifanc mewn perthynas â phryderon ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant: Gofalwyr maeth (N=13); Gweithwyr Cymdeithasol (N=15); Gweithwyr gofal preswyl (N=15)<sup>3</sup>. Defnyddiwyd dull samplu pelen eira pwrpasol. Roedd y gweithwyr cymdeithasol a bron pob un o'r gweithwyr preswyl plant a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil yn gweithio o fewn yr un awdurdod lleol y daeth y ffeiliau achos ohono'n wreiddiol neu'n gysylltiedig â'r awdurdod hwnnw. Roedd y gweithwyr cymdeithasol a gymerodd ran yn gweithio yn y timau Dyletswydd ac Asesiad, Amddiffyn Plant, Plant sy'n derbyn Gofal ac

---

Nid oeddem yn gallu cael mynediad i ffeiliau a oedd yn ymwneud â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid gan fod y systemau cofnodi wedi newid, a oedd yn golygu na allai'r system newydd adnabod rhifau'r ffeiliau oedd gennym. Gwnaethom hefyd hepgor nifer bychan o bobl ifanc o'r tîm Ceiswyr Lloches, oherwydd ychydig o ddata oedd yn y ffeil achos ac ni ellid ei gymharu, felly roedd perygl y byddai'n camliwio'r data. Mae ein data'n seiliedig ar garfan lawn o blant a phobl ifanc sy'n ymwneud â'r timau Dyletswydd ac Asesiad, amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal, ôl-ofal ac 16+

<sup>2</sup>Pan nad oedd digwyddiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, roedd cod un, tri neu bedwar yn cael eu gosod ar gyfer yr achosion; pan oedd digwyddiad o'r fath, roedd codau'n cael eu gosod ar draws y pedwar cam..

<sup>3</sup>Roeddem wedi bwriadu cynnwys oedolion ifanc o'r garfan wreiddiol yn 2006, ond roedd hi'n rhy anodd neu'n anegwyddorol i fynd ar ôl cyfranogwyr. Roedd ein strategaeth fynediad yn cynnwys sicrhau y gellid rheoli'r cyswllt ynghylch yr ymchwil drwy gyswllt o'r awdurdod lleol, h.y. rhywun roeddent yn ei adnabod. Nid oedd rhai'n gysylltiedig â'r awdurdod lleol mwyach a heb fod mewn cyswllt am gryn amser, felly nid oedd eu manylion cyswllt ar gael neu'n hysbys, neu ni ddathlwyd gweithiwr cyfredol ymlaen i'n helpu ni i gael mynediad. Neu, os gwnaethpwyd cysylltiad, nid oedd yn gadarnhaol neu roedd pryderon ynghylch pobl ifanc a oedd yn ymwneud â'r awdurdod lleol ar y pryd, felly ni fyddai wedi bod yn briodol i geisio cysylltu â nhw.

Ôl-ofal/16+. Roedd y gofalgwyr maeth yn byw ar hyd a lled Cymru. Daeth dau o'r bobl ifanc o awdurdod lleol gwahanol trwy gymorth tim gwaith cymdeithasol sy'n arbenigo mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac roedd un o'r gweithwyr preswyl yn rheoli cartref plant statudol yn yr un awdurdod (yr ail awdurdod). Roedd yr holl bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymchwil yn ferched a rhwng 14 ac 16 oed.

Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr preswyl (addaswyd amserlenni er mwyn sicrhau ein bod yn cael profiadau a safbwyntiau sectorau penodol). Gwnaeth grwpiau ffocws bach gyda gofalgwyr maeth ganiatáu a sicrhau bod themâu cyffredin yn cael eu trafod, ac edrychwyd ar unrhyw feysydd o wrthdaro yn y maes hwn na chaiff ei ymchwilio ddigon. I gefnogi cyfranogiad pobl ifanc yn yr ymchwil hwn, cafodd dulliau creadigol eu cynnwys yn nyluniad y gwaith ymchwil. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio gweithgareddau geiriau, gweithgareddau mapio a dyluniadau; ac mae'r rhain i gyd wedi'u defnyddio fel ffyrdd moesegol, hygyrch a 'hwyl' o ennyn trafodaethau ynghylch meysydd pwnc sensitif. Cafodd 20 diwrnod o waith maes ethnograffig ei gyflawni dros saith wythnos mewn cartref plant preswyl a oedd yn nodi o fewn ei ddatganiad o ddiben ei fod yn cefnogi pobl ifanc mewn perygl o brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd pedwar unigolyn ifanc yn byw yn y cartref ar adeg yr ymchwil. Cafodd yr amser a dreuliwyd yn yr uned ei rannu i gynnwys boreau, prynhawniau a nosweithiau yn yr uned. Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau dros nos o fewn amserlenni'r prosiect hwn.

Gwnaeth y cyfweiliadau â gweithwyr cymdeithasol bara oddeutu 60 munud; gwnaeth cyfweiliadau â gweithwyr preswyl bara rhwng 30-70 munud; gwnaeth grwpiau ffocws gyda gofalgwyr maeth bara tair awr; ac roedd pob cyfweiliad a recordiwyd gyda phobl ifanc rhwng 90-96 munud o hyd: roedd hyn yn cynnwys 1800 o oriau o recordiadau cyfweld wedi'u trosi'n ddata. Cafodd nodiadau o bob cyfweiliad eu casglu a'u storio hefyd. Roedd y nodiadau maes, gan gynnwys y nodiadau a gymerwyd mewn cyfweiliadau byrrach â phobl ifanc, yn cynnwys dros

700 o dudalennau o ddisgrifiadau manwl o ddigwyddiadau a sgysiau a oedd yn digwydd yn y cartref.

## Moeseg

Cafodd y gwaith ymchwil ei lunio a'i lywio gan fframwaith llywodraethu Prifysgol Caerdydd a datganiad moeseg Cymdeithas Gymdeithasegol Prydain. Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y sefydliad (SREC). Roedd y gwaith ymchwil hwn yn seiliedig ar ddull cynhyrchu ar y cyd, a oedd yn dangos ymrwymiad i gynnwys ac ymhél â rhanddeiliaid yn y gwaith o ddylunio'r ymchwil, y broses, datblygu deunyddiau a gweithgareddau lledaenu gwybodaeth. Gwnaeth grŵp cynghori a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r byd academaidd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, gwrdd chwe gwaith yn ystod y prosiect. Gwnaeth grŵp llywio pobl ifanc, a hwyluswyd gan Voices from Care, gwrdd dair gwaith.

## NODWEDDION A PHROFIADAU

Dechreu'r adroddiad drwy ystyried y data o'r gwaith dadansoddi ffeiliau achos meintiol. Gwnaeth y dadansoddiad ystyried demograffeg gyffredinol y garfan, ynghyd â nodweddion o ran cysylltiad gwasanaethau cymdeithasol, trefniadau byw, cydberthnasau teuluol, cydberthnasau â chyfoedion, profiadau o gam-drin, ymddygiadau troseddol, rhedeg i ffwrdd a beichiogrwydd. Mae'r adroddiad yn symud ymlaen wedyn i drafod profiadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan gynnwys ffactorau arwyddocaol sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, ymyriadau a champau cynorthwyo a ddarparwyd a'u heffaith, y canlyniadau i bobl ifanc, a'r berthynas rhwng ymyriadau, nodweddion allweddol (ffactorau risg/amddiffynnol) a chanlyniadau.

## Demograffeg

Ar adeg yr ymarfer gwreiddiol, ystod oedran y bobl ifanc yn y garfan oedd rhwng 9 a 18

oed; pan wnaethpwyd yr ymchwil, roeddent rhwng 19 a 29 mlwydd oed. O fewn y sampl o 205 o achosion, cafodd 136 o achosion eu gosod yn y categori heb risg neu risg fechan yn wreiddiol (66.3%) a chredwyd bod 69 o achosion yn rhai â risg gymedrol neu risg sylweddol (33.7%). Roedd yr ymarfer gwreiddiol yn cynnwys pobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaethau plant trwy dimau dyletswydd ac asesiad, amddiffyn plant, plant mewn angen, gwasanaethau ôl-ofal, a phlant sy'n derbyn gofal.

Roedd 26.3% (N=54) o'r bobl ifanc yn dangos arwyddion cryf eu bod wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Golyga hyn fod un o bob pedwar unigolyn ifanc yn y garfan hon wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar un adeg. Roedd oddeutu 35% o'r bobl ifanc hyn wedi'u nodi fel rhai oedd mewn perygl sylweddol o brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Yn wreiddiol, credwyd bod 22% o'r achosion yn rhai â risg gymedrol; cafodd 20% o achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant eu rhoi yn y categori risg fechan; ac roedd 22% o'r achosion wedi'u nodi'n wreiddiol fel rhai heb risg. Roedd y bobl ifanc yn 14 oed ar gyfartaledd pan godwyd pryderon ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Merched yw ychydig dros hanner cyfanswm y sampl (54.6%). Mae cyfran y merched yn uwch (o lawer) yn y grŵp risg uchel (60.9%) ac yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant (75.9%). Pobl wyn Brydeinig yw'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc (87.8%), gydag eraill wedi'u cofnodi fel gwyn arall (2%), cymysg (8.3%) ac Asiaidd (2%). Pobl wyn Brydeinig oedd 87% o'r rheiny yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd gan 13.7% o'r holl sampl anabledd dysgu/anhwylder datblygu, ac roedd y bobl ifanc hyn yn cyfrif am 9.3% o'r bobl ifanc a oedd wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

## Cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol

Roedd bron hanner y bobl ifanc yn yr holl sampl ar y gofrestr amddiffyn plant. Roedd 61% ohonynt wedi'u cofrestru fel plentyn mewn angen. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol

ynghyfran y bobl ifanc a oedd ar y gofrestr amddiffyn plant neu'n cael eu hystyried fel plentyn mewn angen rhwng y grwpiau risg isel neu uchel. Fodd bynnag, gwelwyd gwahaniaethau sylweddol rhwng y grŵp a oedd wedi profi camfanteisio'n rhywiol ar blant a'r grŵp nad oedd wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd pobl ifanc a oedd wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn llai tebygol o fod ar y gofrestr amddiffyn plant na'r rhai hynny nad oeddent wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Yn yr un modd, roedd y rhai hynny yn y grŵp a oedd wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn llai tebygol o fod yn blentyn mewn angen na'r rhai hynny nad oeddent wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Yng ngham 2, mae canran ychydig yn uwch o bobl ifanc sy'n profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn blant mewn angen (55.6%). (I'r rhai hynny sy'n byw dan ofal yr awdurdod lleol, gweler isod)

Yn gyffredinol, roedd gan bobl ifanc nifer fawr o weithwyr cymdeithasol drwy gydol oes eu hachos, gyda 7.6 o weithwyr cymdeithasol ar gyfartaledd yn yr holl sampl. Roedd nifer o wahanol asiantaethau'n gysylltiedig â chefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd, fel gwasanaethau tai, iechyd rhywiol, gwasanaethau iechyd meddwl, ysgolion, gofalwyr maeth ac asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn ogystal â'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd pobl ifanc yn gysylltiedig â mwy na phum gwahanol asiantaeth ar gyfartaledd yn ystod cam 1. Yn ystod cam 2, roedd saith asiantaeth ar gyfartaledd yn gysylltiedig â phobl ifanc a oedd yn profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

## Trefniadau byw

O ran amgylchiadau byw, roedd yr holl bobl ifanc yn byw gyda'u teulu (rhieni neu aelodau eraill o'r teulu) o leiaf am ryw faint o'r amser yng ngham 1. Treuliodd dros hanner y bobl ifanc yn y sampl amser dan ofal yr awdurdod lleol. Roedd pobl ifanc yn y grŵp risg uchel ychydig yn fwy tebygol o lawer o fod wedi treulio amser dan ofal awdurdod lleol o'u cymharu â'r rhai hynny yn y grŵp risg isel. Nid oedd gwahaniaeth rhwng y grwpiau o

ran byw'n annibynnol neu fod yn ddigartref /mewn llety dros dro. Yng ngham 2, roedd mwy na 70% o'r bobl ifanc a oedd yn profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant dan ofal yr awdurdod lleol.

Bu'n rhaid i'r bobl ifanc symud a newid eu trefniadau byw llawer o weithiau. I ddangos, symudodd yr holl sampl o bobl ifanc naw gwaith ar gyfartaledd. Y nifer uchaf o symudiadau a gofnodwyd oedd 57. Roedd pobl ifanc yn y garfan risg uchel wedi profi llawer mwy o symudiadau o'u cymharu â'r rhai hynny yn y garfan risg isel. Yn yr un modd, roedd y rhai hynny a oedd wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi symud yn llawer amlach na'r rhai hynny nad oeddent wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. (Gweler hefyd tabl 1, isod.)

## Cyberthnasau teuluol

Roedd gan bron 60% o'r bobl ifanc yn yr holl sampl berthynas gamweithredol â'u rhieni, ac roedd 6.8% arall o'r bobl ifanc wedi profi chwalfa lwyr yn eu perthynas â'u rhieni. Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y grwpiau risg isel a risg uchel o ran cydberthnasau cyffredinol â rhieni. Ond, roedd y rhai hynny yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant yn llawer mwy tebygol na'r rhai hynny yn y grŵp nad oedd wedi profi achosion o gamfanteisio'n

rhywiol ar blant o gael perthynas negyddol â'u rhieni. Yng ngham 2, roedd gan y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a oedd yn profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (87.0%) berthynas gamweithredol â'u rhieni (gan godi i 92.6 os cynhwysir y rhai a oedd wedi profi chwalfa lwyr yn eu perthynas).

Roedd bron hanner yr holl sampl (44.9%) wedi cael eu gwrthod gan riant, a 5% arall wedi cael eu gwrthod rywfaint gan riant (cymysg). Roedd y rhai hynny yn y grŵp risg uchel yn fwy tebygol o fod wedi'u gwrthod gan riant, er mai dim ond ychydig yn fwy sylweddol oedd y gwahaniaeth hwn. Nid oedd y tebygolrwydd o gael ei wrthod gan riant yn amrywio llawer rhwng y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant a'r grŵp nad oedd wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Yng ngham 2 fodd bynnag, roedd bron dau o bob tri pherson ifanc (61.1%) a oedd yn profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi'u gwrthod gan eu rhieni.

Mae gan ganran uchel o'r holl sampl (69.8%) rieni neu ofalwyr sy'n cael eu hystyried yn risg neu'n bryder i'r unigolyn ifanc. Yn annisgwyl efallai, roedd y rhai hynny yn y grŵp risg isel yn fwy tebygol o lawer o gael aelodau o'r teulu a ystyriwyd yn risg neu'n bryder na'r rhai hynny yn y grŵp risg uchel ac, yn yr un modd, roedd y grŵp nad oedd wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn fwy tebygol o gael aelodau o'r teulu a ystyriwyd yn risg neu'n bryder na'r

Tabl 1. Amgylchiadau byw a symudiadau (yng ngham 1 a 2)						
	Cam 1					Cam 2
	Yr holl sampl	Grŵp risg isel	Grŵp risg uchel	Grŵp nad oedd wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant	Grŵp amfanteisio'n rhywiol ar blant	Grŵp amfanteisio'n rhywiol ar blant
	(N=205)	(N=136)	(N=69)	(N=151)	(N=54)	(N=54)
	%	%	%	%	%	%
Gyda theulu	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	84.6
Annibynnol / gyda phobl gysylltiedig	37.6	37.5	37.7	42.4	24.1*	63.5
Dan ofal yr awdurdod lleol	55.6	51.5	63.8 <sup>†</sup>	51.7	66.7*	71.2
Digartref / llety dros dro / lloches	26.3	24.3	30.4	30.5	14.8*	42.3
	<b>C (GS)</b>	<b>C (GS)</b>	<b>C (GS)</b>	<b>C (GS)</b>	<b>C (GS)</b>	<b>C (GS)</b>
Cyfanswm y symudiadau	9.3 (9.7)	7.2 (7.8)	13.5 (11.6)	7.3 (7.7)	14.8 (12.3)	--
Ystod	0-57	0-42	0-57 ***	0-39	0-57 ***	--

<sup>†</sup> t<0.10, \* t<0.05, \*\* t<0.01, \*\*\* t<0.001



grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant. (Gallai hyn fod oherwydd bod teulu'n llai cysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Neu, os ystyrir hyn gyda ffigurau'r rhai hynny ar y gofrestr amddiffyn plant sy'n llai tebygol o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant, gallai'r canfyddiad hwn ddod yn sgil y ffaith bod y teuluoedd hynny lle nodwyd risg wedi derbyn cymorth, a bod y plant hyn yn llai tebygol o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant.)

## Cyberthnasau â chyfoedion

Mae gan bron hanner y bobl ifanc yn yr holl sampl (45.4%) berthynas negyddol â (rhai) o'u cyfoedion. Roedd y rhai hynny yn y grŵp risg uchel yn fwy tebygol o lawer o gael cyberthnasau negyddol yn bennaf â chyfoedion o'u cymharu â'r grŵp risg isel. Yn yr un modd, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant a'r grŵp nad oeddent wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, gyda'r rhai hynny yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fwy tebygol o gael cyberthnasau negyddol yn bennaf o'u cymharu â'r grŵp nad oeddent wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

## Profiadau o gam-drin

Mae mwy na dwy ran o dair o'r bobl ifanc (70.2%) wedi profi camdriniaeth emosiynol, dros hanner ohonynt (58.0%) wedi profi trais corfforol a hanner ohonynt (50.7%) wedi profi esgeulustod gan rieni/rhai sy'n rhoi gofal. Mae'r gyfran o bobl ifanc sydd wedi profi'r tri math hyn o gamdriniaeth yn uchel ar draws yr holl is-grwpiau, ac nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y grwpiau risg isel a risg uchel, na rhwng y grŵp nad ydynt wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a'r grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant.

O ran camdriniaeth rywiol, mae un o bob tri pherson ifanc yn yr holl sampl (33.7%) wedi profi rhyw fath o gam-drin rhywiol (e.e. cam-drin rhywiol gan aelod o'r teulu, cam-drin rhywiol gan rywun nad oedd yn aelod o'r teulu neu dreisio). Mae'r gyfran hon yn llawer uwch ymhlith y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant o'i chymharu â'r grŵp nad ydynt wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd pobl ifanc a oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol yn fwy tebygol na'r rhai hynny nad oeddent wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol o fod wedi profi rhyw fath o gam-drin rhywiol (ychwanegol/

Tabl 2. Perthynas â theulu a chyfoedion (yng nghamau 1 a 2)

	Cam 1						Cam 2
	Yr holl sampl	Grŵp risg isel	Grŵp risg uchel	Grŵp nad oedd wedi profi camfanteisio'n rhywiol ar blant	Grŵp amfanteisio'n rhywiol ar blant	Grŵp amfanteisio'n rhywiol ar blant	
	(N=205)	(N=136)	(N=69)	(N=151)	(N=54)	(N=54)	
	%	%	%	%	%	%	
<b>Natur y berthynas â'r rhieni</b>							
Cadarnhaol	22.9	27.9	13.0	25.8	14.8	7.4	
Niwtral	8.3	5.9	13.0	9.9	3.7	0.0	
Camweithredol	59.5	58.8	60.9	55.0	72.2	87.0	
Chwalfa lwyr	6.8	5.9	8.7	7.9	3.7	5.6	
Anhysbys	2.4	1.5	4.3	1.3	5.6	0.0	
Negyddol (cyfanswm = camweithredol + chwalfa lwyr)	66.3	64.7	69.6	62.9	75.9*	92.6	
<b>Gwrthod gan rieni</b>							
Na	39.0	44.1	29.0	41.7	31.5	22.2	
Ydyn	44.9	39.0	56.5 <sup>†</sup>	43.0	50.0	61.1	
Cymysg	4.9	6.6	1.4	4.0	7.4	2.4	
Aneglur/Anhysbys	9.8	9.6	13.0	11.3	11.1	7.4	
Teulu/gofalwyr a ystyrir yn risg/pryder	69.8	74.3	60.9 <sup>†</sup>	74.2	57.4*	61.1	

<sup>†</sup> t<0.10, \* t<0.05, \*\* t<0.01, \*\*\* t<0.001

blaenorol). Roedd pobl ifanc yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fwy tebygol o fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol gan aelod o'r teulu a dioddef cam-drin rhywiol/cael eu treisio y tu allan i'r teulu (46.3%), o'u cymharu â'r rhai hynny yn y grŵp nad oeddent wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ond mae'r ddau wahaniaeth yn eithaf sylweddol. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau risg isel a risg uchel o ran cyfran yr ieuencid a oedd wedi profi cam-drin rhywiol.

Wrth edrych ar ferched a dynion ar wahân, gwelir ychydig o wahaniaethau rhwng y ddau ryw o ran profiadau o gam-drin. Mae merched yn fwy tebygol na dynion o fod wedi profi'r gwahanol fathau o gam-drin rhywiol. Gwnaeth cyfran uwch o ferched na dynion brofi unrhyw gam-drin rhywiol (h.y. gan aelod o'r teulu a/neu gan rywun nad oedd yn aelod o'r teulu) yn yr holl sampl, a chyfran uwch hefyd yn y grŵp risg uchel, y grŵp risg isel ac yn y grŵp nad oedd wedi profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Ond yn ddiddorol, nid oedd gwahaniaeth rhwng y ddau ryw o ran y tebygolrwydd o fod wedi profi cam-drin rhywiol yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg iawn pan gaiff cam-drin rhywiol gan aelod o'r teulu a chan rywun arall eu hystyried ar wahân. O ran cam-drin rhywiol gan aelod o'r teulu, roedd merched yn fwy tebygol na dynion o

fod wedi profi cam-drin rhywiol gan aelod o'r teulu yn yr holl sampl, yn y grŵp risg uchel ac yn y grŵp nad oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y ddau ryw yn y grŵp risg isel a'r grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant. Wrth edrych ar gam-drin rhywiol/treisio gan bobl nad ydynt yn aelod o'r teulu, roedd cyfran uwch o ferched na dynion wedi profi cam-drin rhywiol/treisio yn yr holl sampl, yn y grŵp risg isel ac yn y grŵp nad oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng dynion a merched o ran y tebygolrwydd o fod wedi profi cam-drin rhywiol/treisio gan rywun nad oedd yn aelod o'r teulu yn y grŵp risg uchel a'r grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant.

O ran esgeulustod, dim ond yn y grŵp risg uchel y canfuwyd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y ddau ryw, gyda mwy o fechgyn na merched wedi profi esgeulustod. Nid oedd gwahaniaethau rhwng y ddau ryw o ran profi esgeulustod yn y grwpiau eraill. Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng dynion a merched o ran cam-drin corfforol neu gam-drin emosiynol. Roedd profiad o gam-drin emosiynol yn uchel yn y ddwy garfan (70.2%), ond roedd y garfan o ddynion a oedd profi cam-drin emosiynol yn uwch yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant (84.6%).

At ei gilydd, mae profiadau o gam-drin yn gyffredin iawn ar draws yr holl

**Tabl 3. Profiadau o gam-drin (yng ngham 1 a 2)**

	Cam 1					Cam 2
	Yr holl sampl	Grŵp risg isel	Grŵp risg uchel	Grŵp nad oedd wedi profi camfanteisio'n rhywiol ar blant	Grŵp amfanteisio'n rhywiol ar blant	Grŵp amfanteisio'n rhywiol ar blant
	(N=205)	(N=136)	(N=69)	(N=151)	(N=54)	(N=54)
	%	%	%	%	%	%
Cam-drin corfforol gan aelod o'r teulu	58.0	55.1	63.8	55.6	64.8	33.3
Cam-drin rhywiol gan aelod o'r teulu	21.5	21.3	21.7	18.5	29.6 <sup>†</sup>	18.5
Cam-drin rhywiol/treisio	16.1	18.4	11.6	13.2	24.1 <sup>†</sup>	33.3
Unrhyw gam-drin rhywiol	33.7	35.3	30.4	29.1	46.3 <sup>*</sup>	44.4
Y ddau fath o gam-drin rhywiol	3.9	4.4	2.9	2.6	7.4	7.4
Esgeulustod	50.7	49.3	53.6	54.3	40.7	14.8
Cam-drin emosiynol	70.2	69.9	71.0	70.9	68.5	57.4
	<b>C (GS)</b>	<b>C (GS)</b>	<b>C (GS)</b>	<b>C (GS)</b>	<b>C (GS)</b>	<b>C (GS)</b>
Nifer o'r mathau o gam-drin	2.18 (1.42)	2.14 (1.28)	2.25 (1.15)	2.13 (1.21)	2.32 (1.31)	1.57 (1.21)

<sup>†</sup> t<0.10, <sup>\*</sup> t<0.05, <sup>\*\*</sup> t<0.01, <sup>\*\*\*</sup> t<0.001

grwpiau ac ymhlith y ddau ryw. Canfuwyd gwahaniaethau rhwng y ddau ryw yn bennaf o ran cam-drin rhywiol.

## Troseddu

Mae dros hanner y sampl yn ymwneud ag ymddygiad troseddol. Mae troseddu'n fwy cyffredin ymhlith y grŵp risg uchel o'i gymharu â'r grŵp risg isel, ac yn digwydd yn amlach hefyd yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant o'i gymharu â'r grŵp nad ydynt wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Yng ngham 2, roedd bron un o bob pedwar (22.6%) unigolyn ifanc ymhlith y rhai hynny a oedd wedi profi camfanteisio'n rhywiol ar blant wedi cyflawni trosedd sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac roedd mwy na thri o bob pedwar unigolyn ifanc (77.8%) yn ymwneud â throseddau nad oedd yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

## Rhedeg i ffwrdd

Mae dros hanner y bobl ifanc (53.2%) yn yr holl sampl wedi rhedeg i ffwrdd o'u cartref ar un adeg. Yn aml, mae'r bobl ifanc i ffwrdd o'u cartref am gyfnod byr. Roedd cyfran y bobl ifanc a oedd yn rhedeg i ffwrdd o'u cartrefi yn uwch o lawer yn y grŵp risg uchel o'i gymharu â'r grŵp risg isel, a'r un oedd yr achos rhwng y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant a'r grŵp nad oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd rhedeg i ffwrdd o gartref yn gyffredin iawn yng ngham 2 ymhlith y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant, gyda mwy na phedwar o bob pum unigolyn ifanc (81.5%) yn rhedeg i ffwrdd o leiaf unwaith, a 63% o bobl ifanc yn rhedeg i ffwrdd yn aml.

## Beichiogrwydd

Mae 28.3% o'r bobl ifanc yn yr holl sampl wedi bod yn feichiog (merched) neu wedi cael rhywun yn feichiog (dynion) ar ryw adeg yn ystod eu cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y rhai hynny yn y grŵp risg uchel yn fwy tebygol o lawer na'r rhai hynny yn y grŵp risg isel o fod wedi cael profiad o feichiogrwydd. Yn ogystal â hyn, roedd beichiogrwydd yn fwy tebygol o

ddigwydd ymhlith pobl ifanc sydd wedi profi camfanteisio'n rhywiol ar blant, gyda mwy na hanner y bobl ifanc yn y grŵp hwn (57.4%) yn syrthio'n feichiog/cael rhywun yn feichiog, o'u cymharu ag 17.9% yn y grŵp nad oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Ymhlith y rhai hynny a oedd wedi cael profiad o feichiogrwydd, eu hoedran yn ystod y beichiogrwydd cyntaf oedd 16.9 ar gyfartaledd, ac roedd hyn yn debyg ar draws y gwahanol is-grwpiau. (Yr oed ieuengaf yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant oedd 12 oed, a'r ieuengaf yn y grŵp nad oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant oedd 14 oed.)

Gwyddid am 93 achos o feichiogrwydd ymhlith yr holl sampl, gyda 51 o'r achosion o feichiogrwydd hynny'n ymwneud â'r rhai hynny yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant (a'r rhan fwyaf o'r rhain yn digwydd yng ngham 2). Gwyddys y canlyniad ar gyfer 83 o'r achosion o feichiogrwydd, ac arweiniodd 51 ohonynt at enedigaethau byw. Mae 15.7% o'r genedigaethau byw hyn yn ymwneud â phlant a gafodd eu cymryd o ofal eu rhieni pan gawsant eu geni neu ar ôl hynny.

## PROFIADAU O GAMFANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT

Yn y rhan fwyaf o achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, mae'r cyflawnwr naill ai'n gariad hŷn (59.3%), rhywun arall cysylltiedig (55.6%)<sup>4</sup> neu'n gyfoed (22.2%). Mewn mwy na hanner yr achosion mae mwy nag un cyflawnwr. Cynhaliwyd achos llys yn erbyn y cyflawnwr/cyflawnwyr mewn 22% o'r achosion.

Ni wnaeth y mwyafrif o'r bobl ifanc (63.0%) a brofodd achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ddatgelu hyn. Gwnaeth teulu'r unigolyn ifanc ofyn am gymorth ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn dros un rhan o dair o'r achosion (37.0%). Yn fras,

<sup>4</sup>Fel arfer, mae'r rhain yn gyflawnwyr a oedd mewn perthynas am gyfnod byr iawn (e.e. rhywun mewn parti, neu wedi cwrdd y tu ôl i archfarchnad). Er bod yr achosion hyn yn rhai cyflym, cânt eu cynnal dros gyfnod o amser yn aml, gyda mwy nag un cyflawnwr o'r 'categori arall' hwn.

cafodd bron hanner y rhai hynny a brofodd camfanteisio'n rhywiol ar blant (46.3%) eu hystyried gan weithwyr proffesiynol fel pobl a oedd yn risg i bobl ifanc eraill.

## Ffactorau arwyddocaol sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant

Roedd rhan o'r ymchwiliad yn ymwneud ag archwilio pa ffactorau sydd â rôl fel ffactorau risg ac amddiffynnol o ran camfanteisio'n rhywiol ar blant. Defnyddiwyd dadansoddiadau atchweliad logistaidd deuaidd (dull ar ei ôl) i nodi pa ffactorau oedd yn arwyddocaol yn ystadegol. Cafodd yr holl newidion annibynnol perthnasol (damcaniaethol) a fesurwyd yng ngham 1 eu cynnwys yn y model. Mae'r model wedyn yn cael gwared ar y ffactorau nad ydynt yn cyfrannu'n sylweddol at egluro camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r model terfynol yn cynnwys y ffactorau canlynol.

**Rhywedd:** Noda'r canlyniadau fod merched yn fwy tebygol o brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant o'u cymharu â dynion. Yn benodol, roedd merched bron saith gwaith yn fwy tebygol na dynion o brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

**Cam-drin rhywiol:** Nid yw hanes o gam-drin yn nodweddiadol unigryw i bobl ifanc sydd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Yn y garfan hon o bobl ifanc, roedd y rhai hynny nad oeddent wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi dioddef rhyw fath o gamdriniaeth yn y teulu (camdriniaeth gorfforol, camdriniaeth emosiynol, esgeulustod). Fodd bynnag, yr eithriad yw cam-drin rhywiol. Ni waeth beth fo rhywedd y bobl ifanc. Mae'r rhai hynny sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol (o fewn a/neu y tu allan i'r teulu) bum gwaith yn fwy tebygol na'r rhai hynny na brofodd achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd y rhai hynny a oedd wedi dioddef cam-drin rhywiol ychwanegol gan aelod o'r teulu fwy na chwe gwaith yn fwy tebygol o brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, o'u cymharu â'r rheiny nad oedd wedi'u cam-drin yn rhywiol/treisio y tu allan i gyd-destun y teulu.

## Cyfanswm y symudiadau a wnaed mewn sefyllfa byw:

Mae ansefydlogrwydd ac aflonyddwch drwy gael ei symud yn gysylltiedig â risg uwch o brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Po fwyaf yr oedd unigolyn ifanc wedi symud, y mwyaf tebygol yr oedd o brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol.

## Cael perthynas gadarnhaol â chyfoedion:

Canfuwyd bod cael perthynas gadarnhaol â chyfoedion yn ffactor amddiffynnol ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd y rhai hynny a oedd â pherthynas gadarnhaol neu'n gadarnhaol gan fwyaf â chyfoedion yn llai tebygol o brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol.

## Nifer o asiantaethau a oedd yn gysylltiedig â'r achos:

Roedd camfanteisio rhywiol yn llai tebygol hefyd pan oedd nifer uwch o asiantaethau'n gysylltiedig. Noda hyn bwysigrwydd darparu cymorth cydlynol i fynd i'r afael ag anghenion (lluosog) unigolyn ifanc.

Yn ogystal â'r uchod, roedd y newidion canlynol (a oedd yn eithaf annisgwyl ac yn debygol o fod yn gysylltiedig) o arwyddocâd ystadegol:

## Nifer o weithwyr cymdeithasol a oedd yn gysylltiedig â'r achos:

Rhaid ystyried y canfyddiad hwn yn ofalus. Mae'r dadansoddiad o ffeiliau achos, ynghyd â'n dehongliad o'r ffeiliau, yn nodi bod hyn yn adlewyrchu achosion lle aeth gweithwyr proffesiynol ati i geisio sicrhau bod y gweithiwr cymdeithasol cywir ar gael i weithio gyda'r unigolyn ifanc cywir – h.y. ceisio dod o hyd i weithiwr cymdeithasol a allai feithrin cysylltiad a pherthynas â'r unigolyn ifanc. Gallai'r ystadegyn hwn hefyd nodi am ba hyd mae plant wedi cael cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol yn eu bywyd teuluol a/neu heb gael cysylltiad parhaus.

## Beichiogrwydd:

Mae profi beichiogrwydd yng ngham 1 yn ffactor amddiffynnol ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant. Rhaid ystyried y canfyddiad hwn yn ofalus hefyd. Mae hwn yn cyd-fynd â'r dadansoddiad ffeil achos ansoddol ac â'r dadansoddiadau eraill yn y gwaith ymchwil. Mae beichiogrwydd fel rhywbeth positif yn debygol o fod yn gysylltiedig â chynnydd yn y gefnogaeth unigol a roddir i'r unigolyn ifanc, darpariaeth i gefnogi anghenion ehangach, cynnydd

yn y cymorth uniongyrchol a'r ffaith yr ymgynghorir â'r unigolyn ifanc a'i gynnwys mwy mewn penderfyniadau gan ei fod yn cael ei ystyried yn riant.

## EFFAITH YMYRIADAU

Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried pa ymyriadau a chymorth a ddarparwyd i bob unigolyn ifanc. Gwnaethom hefyd ystyried rôl pobl ifanc yn eu gofal. Roedd hyn yn cynnwys asesiad cyffredinol o ba un a oedd gweithwyr proffesiynol yn gwrandao ar eu dymuniadau, a oedd eu safbwyntiau'n cael eu hystyried o fewn asesiadau ac adolygiadau ffurfiol, ac a oedd tystiolaeth o gyfranogiad gan yr unigolyn ifanc. Gwnaethom hefyd ystyried a oedd yr unigolyn ifanc yn gysylltiedig â'r penderfyniad y tu ôl i'r ymateb(ion) i gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Yn fwy penodol, gwnaethom ystyried pob ymateb/ymyrraeth o ran a oedd yn cael ei darparu neu beidio, ac a oedd yr unigolyn ifanc yn gofyn amdani neu beidio, ynghyd ag archwilio'r effaith.

Cafodd cyfanswm o 27 o wahanol ymatebion ac ymyriadau eu hystyried yn y codio. Roedd y rhain yn cynnwys, ymhlith eraill: gwaith ar gydberthnasau iach/cadw'n ddiogel, cymorth uniongyrchol, gwaith ar hunaniaeth, tystiolaeth o berthynas ag oedolyn cefnogol, cymorth tai, cymorth addysg, cwnsela, gwaith i ymdrin ag ymddygiad troseddol, a chamau cynorthwyo sy'n ymwneud yn benodol â chamfanteisio'n rhywiol ar blant; megis cymorth gyda chyfiawnder troseddol, ymyriadau gan yr heddlu, cael llety a chael ei symud mewn cyswllt penodol â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Mewn oddeutu hanner yr achosion, a wnaeth gweithwyr proffesiynol wrando ar ddymuniadau'r unigolyn ifanc wrth wneud penderfyniadau, neu a gafodd dymuniadau a safbwyntiau'r unigolyn ifanc eu hystyried mewn asesiadau ffurfiol. Wrth edrych yn benodol ar y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant, dim ond mewn un o bob tri achos y gwnaeth gweithwyr proffesiynol wrando ar

ddymuniadau'r unigolyn ifanc (33.3%) neu ystyried safbwyntiau'r unigolyn ifanc mewn asesiadau ffurfiol (35.2%).

O ran effaith ymyriadau, yr ymyrraeth a gafodd y canlyniadau mwyaf cadarnhaol oedd cael oedolyn cefnogol, gyda 66% o'r achosion yn cael effaith gadarnhaol ar yr unigolyn ifanc, a 22% arall o'r achosion yn cael effaith gymysg. Roedd cymorth uniongyrchol a chymorth addysg/cyflogaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar bron hanner y bobl ifanc a dderbyniodd y math hwn o ymyrraeth, ac ni welodd 30% o bobl ifanc unrhyw effaith na chael eu cynnwys. Roedd gwaith ar iechyd rhywiol yn llwyddiannus i 45.2% o bobl ifanc, gydag 19.4% arall o bobl ifanc yn cael effaith gymysg. Cynigiwyd cymorth mamolaeth i ddwy ran o dair o'r merched a syrthiodd yn feichiog, a chafodd y math hwn o gymorth effaith gadarnhaol ar y mwyafrif o'r rhai hynny a dderbyniodd y cymorth.

Roedd lefel y rhai a wrthododd ymgysylltu yn gymharol uchel ymhlith y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant. Er enghraifft, ni wnaeth bron 40% ohonynt ymhél â chymorth uniongyrchol, ni wnaeth 64% ymhél â gwaith ar gydberthnasau iach, ac ni wnaeth 58% ymhél â chwmsela seicolegol. Fodd bynnag, cafodd cymorth uniongyrchol a gwaith ar iechyd rhywiol effaith gadarnhaol ar bron hanner y bobl ifanc a brofodd achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd cael oedolyn cefnogol yn bwysig yn y grŵp hwn.

Nid oedd cwnsela seicolegol yn llwyddiannus iawn, gan gael effaith gadarnhaol ar 28% o bobl ifanc y sampl yn unig. Nid oedd gwaith ar gydberthnasau iach yn llwyddiannus iawn chwaith, gan gael effaith gadarnhaol ar un o bob pedwar unigolyn ifanc a dderbyniodd yr ymyrraeth hon yn unig. Roedd dros hanner (57.4%) o'r bobl ifanc wedi cael ymyrraeth gan yr heddlu a oedd yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant (e.e. gorchymyn amddiffyn gan yr heddlu, rhybuddion i'r cyflawnwr, cyrhoedd/archwiliadau). Yn anffodus, roedd hyn yn cael effaith negyddol yn aml (32.3%) neu'n peri i'r unigolyn ifanc beidio ag ymgysylltu (25.8%). Bu ymyriadau gan yr heddlu dim ond yn gadarnhaol mewn 12.9% o'r achosion. Cafodd

un o bob pedwar unigolyn ifanc a oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant lety o ganlyniad i ddiodeff achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Cafodd yr ymyrraeth hon effaith gymysg, yn cael effaith gadarnhaol mewn 43% o'r achosion ond yn cael effaith negyddol mewn 43% o achosion eraill. Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried, ac efallai eu hegluro, ochr yn ochr â'r negeseuon o ochr ansoddol y gwaith ymchwil.

## CANLYNIADAU

Mae'r adran hon o'r adroddiadau yn cyflwyno'r canfyddiadau ar y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn y garfan, pan wnâeth eu cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol ddod i ben neu ar ôl hynny ([gweler hefyd dabl 4, isod](#)).

Roedd y mwyafrif o'r bobl ifanc mewn cyflogaeth neu hyfforddiant (58.5%) ac mewn llety sefydlog (68.3%). Fodd bynnag, mae pobl ifanc yn y garfan risg uchel a'r rhai hynny sydd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn dueddol o wneud yn waeth yn y parthau hyn. Roedd pobl ifanc a bennwyd fel rhai risg uchel a'r rhai hynny yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth neu hyfforddiant neu mewn llety sefydlog, o'u cymharu â'r rhai hynny yn y grŵp risg isel. Yn yr holl sampl, gwelir tystiolaeth o drais a cham-drin domestig mewn oddeutu 17% o'r achosion. Mae gan un o bob tri pherson ifanc broblemau camddefnyddio alcohol a/neu gyffuriau, ac mae bron un o bob pedwar ohonynt yn diodeff o broblemau iechyd meddwl. Roedd y rhai hynny a oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn fwy tebygol o lawer o brofi trais a

Tabl 4: Canlyniadau ar adeg cau'r achos ac wedi hynny - yn ôl categori risg a grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant					
	Yr holl sampl	Grŵp risg isel	Grŵp risg uchel	Grŵp nad oedd wedi profi camfanteisio'n rhywiol ar blant	Grŵp amfanteisio'n rhywiol ar blant
	(N=205)	(N=136)	(N=69)	(N=151)	(N=54)
	%	%	%	%	%
Mewn cysylltiad ag adran gwasanaethau cymdeithasol ar adeg cau'r achos	13.7	10.3*	20.3	7.9	29.6***
<b>Canlyniadau</b>					
Mewn cyflogaeth neu hyfforddiant	58.5	66.2	43.5**	63.6	44.4**
Tai sefydlog	68.3	77.9	49.3***	74.8	50.0**
Tystiolaeth o gam-drin o fewn cydberthnasau agos	16.6	13.2	23.2†	10.6	33.3***
Camddefnyddio alcohol/cyffuriau	35.6	30.9	44.9†	30.5	50.0*
Materion iechyd meddwl	23.4	22.1	26.1	19.2	35.2*
Hunan niweidio	5.9	5.9	5.8	4.6	9.3
Mewn cysylltiad ag adran gwasanaethau cymdeithasol ar ôl cau'r achos	54.1	52.2	58.0	49.7	66.7*
<b>Ymysg y rheini sydd mewn cysylltiad ag adran gwasanaethau cymdeithasol*</b>					
	(N=111)	(N=71)	(N=40)	(N=75)	(N=36)
Risg i blant	21.6 (24)	16.9 (12)	30.0 (12)	13.3 (10)	38.9 (14)
Yn byw gyda/yn gysylltiedig â throseddwr rhestr un	21.6 (24)	21.1 (15)	22.5 (9)	24.0 (18)	16.7 (6)
Mewn cysylltiad er mwyn cael cymorth tai neu wasanaethau eraill nad yw'n ymwneud ag amddiffyn plant	42.3 (47)	42.3 (30)	42.5 (17)	42.7 (32)	41.7 (15)
Mewn cysylltiad oherwydd trais a cham-drin domestig	23.4 (26)	22.5 (16)	27.5 (11)	20.0 (15)	33.3 (12)
Mewn cysylltiad oherwydd iechyd meddwl	21.6 (24)	26.8 (19)	12.5 (5)	25.3 (19)	13.9 (5)
Troseddau/carchar	18.0 (20)	21.1 (15)	12.5 (5)	20.0 (15)	13.9 (5)
Rhywfaint o gysylltiad ond ddim ar hyn o bryd	25.2 (28)	19.7 (14)	35.0 (14)	22.7 (17)	30.6 (11)

† t<0.10, \* t<0.05, \*\* t<0.01, \*\*\* t<0.001

\* Mwy nag un rheswm ar gyfer rhai achosion

cham-drin domestig yn eu cydberthnasau, ac o gael problemau gyda chamddefnyddio alcohol neu gyffuriau, ac iechyd meddwl, na phobl ifanc nad oeddent wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Roedd oddeutu 14% o'r bobl ifanc yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol pan ddaeth eu hachos gwreiddiol i ben. Mae cyfran y bobl ifanc a oedd yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol pan gafodd eu hachosion eu cau yn llawer uwch yn y grŵp risg uchel o'i gymharu â'r grŵp risg isel, ac yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant o'i gymharu â'r grŵp nad oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd bron un rhan o dair o bobl ifanc a oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol pan gafodd eu hachosion eu cau.

Mae ychydig dros hanner yr holl bobl (54.1%) wedi cael rhyw gyswllt â'r gwasanaethau cymdeithasol wedi i'w hachosion gau fel oedolion ifanc. Rhai rhesymau cyffredin dros fod mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol wedi i'r achos gael ei gau, ymhlith pethau eraill, yw cael cymorth tai/cymorth arall, cysylltiad oherwydd trais a cham-drin domestig, am eu bod yn cael eu hystyried bellach yn bobl sy'n peri risg i blant, eu bod yn byw gyda, neu'n gysylltiedig â throseddwr rhestr un, neu oherwydd problemau iechyd meddwl. Nid yw cyfran y bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol wedi i'r achos gael ei gau yn amrywio rhyw lawer rhwng y grwpiau risg isel a risg uchel. Fodd bynnag, mae cyfran y bobl ifanc sy'n parhau i fod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol wedi i'w hachosion gau yn uwch o lawer yn y grŵp camfanteisio'n rhywiol ar blant nac yn y grŵp nad oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (dwy ran o dair).

## **Y berthynas rhwng ymyriadau, nodweddion allweddol (ffactorau risg/ amddiffynnol) a chanlyniadau**

Yn ogystal, ystyriodd y dadansoddiad effeithiau ffactorau risg ac amddiffynnol gwahanol ar y canlyniadau (negyddol) amrywiol ar adeg cau achosion, ac edrychodd ar y berthynas rhwng ffactorau sy'n cael eu mesur yng ngham 1, ymyriadau gwahanol (a gynigir yng ngham 1, 2 a/neu 3), a'r canlyniadau amrywiol. Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymyriadau ymddangos fel eu bod yn ddadansoddol arwyddocaol mewn perthynas â'r canlyniadau. Mae rhai ymyriadau hyd yn oed yn gysylltiedig â chynnydd mewn tebygolrwydd canlyniadau negyddol penodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio, pan ddaeth hyn i'r amlwg, nad ydym yn gallu dod i'r casgliad, ar sail y dadansoddiadau hyn, bod yr ymyrraeth wedi achosi canlyniad negyddol. Yn hytrach, mae'r ffaith bod ymyriadau wedi'u cynnal yn gysylltiedig â chanlyniadau negyddol penodol.

## **Canlyniadau addysg a chyflogaeth**

Roedd nifer o ffactorau yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd o beidio â bod mewn addysg a/neu gyflogaeth ar adeg cau achos. Roedd bod ar y gofrestr amddiffyn plant yn ffactor amddiffynnol, gan fod y bobl ifanc hyn yn fwy tebygol na'r rheiny nad ydynt ar y rhestr amddiffyn plant i fod mewn addysg neu gyflogaeth. Mewn cyferbyniad, roedd nifer yr achosion o newid lleoliad neu redeg i ffwrdd yn rheolaidd yn ffactorau risg ar gyfer canlyniadau addysg/cyflogaeth gwael ar adeg cau achos. Po fwyaf y byddai unigolyn ifanc yn newid lleoliad, y mwyaf tebygol y byddai o beidio â bod mewn addysg a/neu gyflogaeth ar adeg cau achos. Roedd pobl ifanc a oedd yn rhedeg i ffwrdd yn aml yn wynebu risg uwch o beidio â bod mewn addysg neu gyflogaeth.

## **Sefyllfa tai ansefydlog**

Ymhlith y tri ffactor a oedd yn cynyddu'r risg yn sylweddol o fod â sefyllfa tai ansefydlog ar adeg cau achos roedd cael perthynas negyddol â rhieni, wedi cael profiad o symud nifer fwy o weithiau hyd at gau'r achos, a rhedeg i ffwrdd yn aml. Roedd y rheiny sydd wedi profi beichiogrwydd yn llai tebygol o fyw mewn sefyllfa ansefydlog o gymharu â'r rheiny nad oeddent wedi profi beichiogrwydd.

Roedd cael cydberthnasau cadarnhaol â chyfoedion yn ffactor amddiffynnol arall, gan fod gan bobl ifanc oedd â chydberthnasau cadarnhaol â chyfoedion risg is o brofi amodau tai ansefydlog ar adeg cau achos. Nid oedd un o'r ymyriadau yn perthyn yn sylweddol i sefyllfa tai pobl ifanc ar adeg cau achos, fodd bynnag, roedd y bobl ifanc yr oedd cefnogaeth uniongyrchol wedi cael effaith gadarnhaol arnynt yn llai tebygol o fod mewn sefyllfa tai ansefydlog.

## Cam-drin o fewn cydberthnasau agos

O ran cam-drin o fewn cydberthnasau agos ar adeg cau achos, mae'r canlyniadau'n dangos mai'r prif ffactor risg oedd sawl gwaith yr oedd unigolyn ifanc wedi symud lleoliad. Roedd ffactorau eraill a oedd yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o gam-drin mewn cydberthnasau agos yn cynnwys yr unigolyn yn cael ei wrthod gan rieni a bod ar y gofrestr amddiffyn plant, er nad oedd y ddwy effaith yn sylweddol iawn. Roedd pobl ifanc yr oedd eu teulu'n cael ei ystyried yn risg neu'n bryder ychydig yn llai tebygol o brofi cam-drin o fewn cydberthnasau agos. Yn ddiddorol, nid oedd gwaith perthynas iach yn gysylltiedig iawn â'r risg o gam-drin domestig (nid oedd yn lleihau'r tebygolrwydd o brofi trais a cham-drin domestig).

## Camddefnyddio alcohol a sylweddau

Roedd pobl ifanc sydd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant bron naw gwaith yn fwy tebygol o gael problemau camddefnyddio sylweddau, o gymharu â phobl ifanc nad oeddent wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Ymhlith y ffactorau risg eraill ar gyfer camddefnyddio sylweddau roedd problemau iechyd meddwl a rhedeg i ffwrdd yn aml. Roedd dynion yn fwy tebygol na merched o gael problemau o ran camddefnyddio sylweddau. Roedd pobl ifanc yr oedd derbyn cefnogaeth uniongyrchol wedi cael effaith gadarnhaol arnynt yn llai tebygol o gael problemau camddefnyddio alcohol a sylweddau.

## Afiechyd meddwl

Y ffactorau risg mwyaf pwysig ar gyfer problemau iechyd meddwl ar adeg cau achosion oed profiad cynharach o broblemau iechyd meddwl yn ystod cam 1 a phrofiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd pobl ifanc sydd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ddeg gwaith yn fwy tebygol o ddiodeff problemau iechyd meddwl ar adeg cau achos na'r rheiny nad oeddent wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

## Cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol

Yn olaf, archwiliwyd effeithiau ffactorau risg ac amddiffynnol yn ogystal ag ymyriadau ar y tebygolrwydd o fod mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol ar ôl cau achos. Roedd pobl ifanc a oedd wedi cael profiad o gam-drin corfforol o fewn y teulu yn wynebu risg uwch o fod mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol ar ôl cau achos, lle roedd y rheiny a oedd â chydberthnasau cadarnhaol â chyfoedion yn llai tebygol o fod mewn cysylltiad parhaus â'r gwasanaethau cymdeithasol ar ôl cau achos. O ran yr ymyriadau, roedd cael cefnogaeth uniongyrchol yn lleihau'r tebygolrwydd o fod mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol yn ddiweddarach yn sylweddol. Fodd bynnag, roedd pobl ifanc a oedd wedi derbyn addysg ar gydberthnasau iach yn fwy tebygol o fod mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol ar ôl cau achos.

## YMATEB I GAMFANTEISIO'N RHYWIOL

Mae'r adroddiad yn symud ymlaen nawr i ystyried canfyddiadau ymchwil ansoddol. Mae'r themâu hyn sy'n cael eu trafod isod wedi codi o'r dadansoddiad o ddata ansoddol, ond maent yn ymwneud yn uniongyrchol â rhai o'r canfyddiadau craidd o elfen feintiol



yr ymchwil. Caiff y problemau sy'n ymwneud â risg addysgiadol a dulliau sy'n seiliedig ar gydberthnasau o ddelio ag achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, dulliau rheoli risg, pwysigrwydd oedolion arwyddocaol, gweithwyr allweddol ac ymarfer sy'n seiliedig ar gydberthnasau, a'r angen i ystyried gofal mewn perthynas â lleoliadau cartref-oddi-cartref eu hystyried isod.

## Gwaith 'risg' a 'chydberthnasau'

Datgelodd y dadansoddiad ystadegol nad oedd risg addysgiadol a dulliau sy'n seiliedig ar gydberthnasau o ymdrin ag ymyriadau ar gyfer achosion o gamfanteisio'n rhywiol yn cael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o bobl ifanc, ac adlewyrchwyd hyn o fewn safbwyntiau'r rheiny wnaeth gyfrannu i'r ymchwil. Mae'r dadansoddiad ansoddol yn awgrymu nad yw'r dulliau hyn yn mynd i'r afael â'r broblem, pan y'u defnyddir fel yr unig ymyrraeth, am nad yw camfanteisio'n rhywiol ar blant (dim ond) yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth am gydberthnasau a risgiau.

Soniodd gweithwyr preswyl am sut yr oedd gan y rhan fwyaf o bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy ychydig iawn o gysylltiadau teuluol cadarnhaol, os o gwbl, diffyg cydberthnasau cadarnhaol â chyfoedion, ac, o ganlyniad, bach iawn o hunan-barch. Gwnaethant sôn am sut mae'r sylw rhywiol a'r sylw a roddir i'r corff gan gamdrinwyr posibl yn gallu darparu synnwyr cadarnhaol o werth i bobl ifanc, a bod eu haddysgu nad yw'r rhain yn gydberthnasau iach na chadarnhaol yn ddull o wrthdroi'r meddylfryd hwn. Gwnaeth rhai o'r gofalwyr maeth fynegi pryder oherwydd bod y bobl roeddent yn gofalu amdanynt wedi profi camdriniaeth, a bod ganddynt ddiffyg hunan-barch a diffyg dealltwriaeth am ffiniau rhywiol, bod angen cymorth personol/cwmsela arnynt i fynd i'r afael â'r teimladau hyn cyn y gallent ddechrau deall neu ymdopi ag archwilio'r hyn sy'n gwneud perthynas iach.

“ Nid oes unrhyw ymyrraeth ar gyfer y plant hyn oherwydd bod eu dehongliad hwy o ystyr cariad yn wahanol iawn i'n dehongliad ni. Felly maent wedi profi llawer o euogrwydd, maent fwy na thebyg wedi teimlo 'pam fi' yn aml. Ond nid ydynt yn gwybod beth sy'n normal hyd nes eu bod wedi derbyn addysg ar ryw a chydberthnasau. Ac rwy'n credu dyma le mae angen cwmsela ar y plant hyn. ”

“ Felly mae'r athrawon yn baglu dros eu hunain yn y tywyllwch. Mae rhai ohonynt yn ymwybodol eu bod yn cychwyn sbardunau ym mhob cyfeiriad. Nid oes gan eraill unrhyw ymwybyddiaeth. ”

– Gofalwyr maeth

Mae addysgu pobl ifanc am gydberthnasau iach, a dweud wrthynt nad yw'r cydberthnasau maent ynddynt neu'r bobl maent yn ymwneud â nhw yn iach, yn dweud dwy neges allai fod yn anodd iawn i'w clywed gan bobl ifanc os mai prin yw'r cydberthnasau gofalgarg cadarnhaol yn eu bywydau. Yn gyntaf, efallai y bydd yn tynnu oddi ar y cadarnhad o werth y maent yn teimlo o gael sylw'r un (y rhai) sy'n eu cam-drin, am eu bod yn clywed nad yw'r sylw hwn yn wir neu'n gadarnhaol, ac efallai y bydd hyn yn cadarnhau pryderon y rheiny sy'n teimlo diffyg hunan-barch ac sydd wedi cael eu gwrthod. Yn ail, mae'n gofyn i bobl ifanc o bosibl ystyried ac wynebu eu teimladau ynghylch y cydberthnasau o fewn eu teuluoedd a rhwydweithiau ehangach, o bosibl heb yr adnoddau mewnol na'r gefnogaeth allanol i brosesu'r rhain. Nid bwriad hyn yw awgrymu bod addysg am gydberthnasau yn negyddol, ond mae'n awgrymu bod angen ystyried sut a phryd y caiff y rhain eu cyflawni ac y dylai'r cyfryw drafodaethau, i rai pobl ifanc, ddigwydd gyda pherthynas yr ymddiriedir ynddi ac o fewn y cyd-destun hwnnw, gyda chymorth eraill hefyd.

Yn yr un modd, mae 'cadw'n ddiogel' neu 'addysg ynglŷn â risg' yn ffocws rhy gul ar gyfer unrhyw ymyrraeth. Soniodd pobl ifanc sy'n ymwneud â'r ymchwil am sut maent yn gwybod am risgiau a chanlyniadau posibl ymddygiadau peryglus. Gwnaethant esbonio'u bod yn ymhél â'r rhain am eu bod yn rhwystredig, neu am eu bod yn ddiogel. Er enghraifft, maent yn rhedeg i ffwrdd neu'n 'mynd ar goll' am nad ydynt yn teimlo'n ddiogel neu'n fodlon ar ble maent yn byw, neu maent am ddianc rhag pethau neu bobl yn eu bywydau.

👄👄 *Rwy'n credu ei fod yn gwneud pethau'n waeth oherwydd ers i mi eu gweld [gweithwyr proffesiynol] rwy'n teimlo fy mod wedi mynd yn fwyfwy ar goll...Mae'n fy ngwneud, yn fy llenwi â phopeth. Felly, er enghraifft, mae fel petai fy mod yn cael gormod o bethau oddi wrth y bobl hyn ac mae fy mhen yn [mae'n gwneud sŵn popio] ac wedyn rwy'n teimlo nad allaf gymryd rhagor.* 🗣️🗣️

- Unigolyn ifanc

Gall gweithwyr proffesiynol sy'n cwrdd er mwyn trafod y risgiau gyda nhw atgyfnerthu'r rhwystredigaethau neu'r dicter hwn, os nad yw'r ffocws ar newid pethau ar eu cyfer nhw neu eu hamgylchiadau, ond yn hytrach yn canolbwyntio ar newid eu hymddygiad. Dywedodd un unigolyn ifanc nad oedd unrhyw un wedi siarad gydag ef am fod yn hapus, datblygu diddordebau, neu am ymhél â phethau cadarnhaol, ond ar gyfer yr unigolyn ifanc oedd â gweithiwr cymorth oedd wedi gwneud hyn, roedd hyn wedi bod yn ffactor newid allweddol iddo.

## Rheoli risgiau

Mae'r drafodaeth uchod yn ymwneud â phryderon ynghylch dull sy'n cael ei yrru gan risgiau ar gyfer mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol, a ddangosir gan gyfranogwyr. Soniodd gofalwyr maeth am

eu pryderon bod ffocws y cymorth ar reoli ymddygiad plant a phobl ifanc a bod hyn yn gyfystyr ag ymatebion cosbol. Gwnaethant awgrymu bod plant a phobl ifanc yn cael eu 'lapio'n rhy dynn mewn gwllân cotwm' neu eu bod 'yn cael eu cloi i fyny', hynny yw nad oeddynt yn gallu mynd allan gyda'u cyfoedion, cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol, bod eu ffonau yn cael eu cymryd oddi arnynt, a bod rhaid cadw llygad arnynt dro ar ôl tro. Roeddent yn pryderu am yr effeithiau tymor hwy ar gyfer pobl ifanc nad oeddent yn gallu adeiladu cydberthnasau â chyfoedion a chymryd rhan mewn gweithgareddau 'arferol' o ddydd i ddydd. Ar yr un pryd, roeddent yn bryderus eu bod yn anfon negeseuon at bobl ifanc maen nhw oedd ar fai, a bod yr ymatebion a brofwyd yn ffurf o gosb.

👄👄 *Rydym yn deall i ryw raddau pam y maent wedi gwneud hyn, pam y maent wedi ychwanegu'r elfen amddiffyn ond, mae'n rhy llym o lawer ac roedd hi'n llefain. Hynny yw, pan fyddai'n llefain bob nos ac yn dweud ei bod yn cael ei chosbi a'i bod heb wneud unrhyw beth o'i le...Dwi'n meddwl eu bod wedi cael ofn am fod ganddi ffordd o fyw peryglus, ond daeth i ben pan ddaeth aton ni a dwi ddim yn deall pam roeddent yn teimlo bod yn rhaid i'r peth fynd yn ei flaen gan nad oedd wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrthym.* 🗣️🗣️

- Gofalwr maeth

Gofalwr maeth un: *Ar y dechrau, pan ddaeth atom, roedd ei ofal yn debycach i fod o dan glo yn y tŷ.*

Gofalwr maeth dau: *Cadwch ef dan glo, peidiwch â'i adael allan.*

Gofalwr maeth un: *Ti'n gwybod, doedd dim hawl ganddo gymdeithasu.*

**Gofalwr maeth dau:** *Ie, i fod yn onest, roedd yn chwerthinllyd, roedd yn fachgen 12 mlwydd oed a dylai fod yn gwneud pethau sy'n addas ar gyfer bachgen 12 mlwydd oed, mynd allan gyda'i ffrindiau, chi'n gwybod, mynd i nofio, gwneud hyn a'r llall.*

**Gofalwr maeth un:** *Doedd dim hawl ganddo wneud unrhyw beth, roedd fel petai'n cael ei hebrwng i bob man, chi'n gwybod. Felly rydym wedi brwydro ond d'oes dim un ohonom yn seicolegwyr, dim ond synnwyr cyffredin sydd ei angen, chi'n gwybod, yn dilyn ein holl flynyddoedd o fod yn, wel, rhieni, a blynyddoedd o fod yn rhieni maeth, gwnaethom sylweddoli nad oedd byth yn mynd i ddatblygu petai'n aros yn yr unfan, chi'n gwybod, fel petai ffens o'i amgylch.*

– Gofalwyr maeth

Rhannwyd y farn hon gan rai o'r rheiny yn y lleoliad gofal preswyl. Gwnaeth cyfranogwyr o'r ddau grŵp hyn sôn am yr angen am 'ystyriaeth hirach' ac i gael adnoddau a chefnogaeth i ddatblygu diddordebau, i roi sylw un-i-un, i gynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau, a darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad cadarnhaol â chyfoedion – a oedd hefyd yn farn a rannwyd gan y bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r ymchwil. Mae hwn yn gofyn am weithio ar y cyd gyda'r unigolyn ifanc, ac ymgysylltiad dwys a pharhaus dros gyfnod o amser.

**66** *Cymerodd oddeutu ddwy flynedd a hanner i ni weithio gyda hi a'i chael i fagu hunan-barch, ei haddysgu ynghylch peryglon rhyw anniogel, gwneud gweithgareddau, roeddem wedi ceisio gwneud hynny i gyd trwy sesiynau gweithio cyswllt. Ond roedd gennym yr anhawster ychwanegol o hunan niweidio hefyd, achos, am oddeutu'r 18 mis cyntaf, byddai hi'n*

*cymryd unrhyw sgwrs y byddwn yn ceisio'i chynnal â hi fel ymosodiad a byddai hynny'n amharu ar ei datblygiad. Ond fe wnaeth weithio yn y diwedd... A chredaf mai un o'r prif resymau y daeth allan ar yr ochr arall yw oherwydd ei bod yn gwybod bod rhywun yno ar ei chyfer bob amser, 24/7. 99*

– Gweithiwr preswyl

**66** *Gartref ac yn yr ysgol. Rwy'n teimlo bod angen iddyn nhw ddod o hyd i rywbeth rydych chi'n hoffi ei wneud, mynd â chi allan i rywle, er enghraifft. Er enghraifft, rwy'n mynd i fynd â ti i McDonalds heddiw a byddwn ni'n mynd yno er mwyn cael sgwrs. Neu bydda i'n mynd â ti i fwydo'r hwyaid a byddwn yn mynd yno er mwyn cael sgwrs neu rywbeth tebyg. Felly, mynd â nhw allan a gwneud rhywbeth, achos rydych chi'n dueddol o siarad fwy am eich bod yn gwneud rhywbeth a byddwch yn teimlo fel siarad ac ati, neu fynd i'r parc a cherdded a sgwrsio, os ydych yn fy neall? 99*

– Unigolyn ifanc

Mae'r pwynt hwn yn darparu cyd-destun ar gyfer effaith gadarnhaol gyfyngedig yr ymatebion gan yr heddlu a ddangosir yn y dadansoddiad meintiol. Os yw'r rhain yn ffurfio rhan o ymateb sy'n canolbwyntio'n unig ar gyfyngiadau ac ymddygiadau pobl ifanc, yna gellir eu gweld yn negyddol ganddynt. Roedd hon yn farn a ddangoswyd gan un o'r bobl ifanc a gafodd ei holi, a wnaeth siarad yn fanwl am ei hymgysylltiad â'r heddlu mewn modd negyddol yn bennaf, am ei bod yn teimlo ei bod yn destun amheuaeth, a wnaeth gynyddu ei rhwystredigaeth a'i harwain i redeg i ffwrdd er mwyn ceisio 'dod o hyd i le hapus'.

O fewn y cyd-destun gofal preswyl, roedd pawb sy'n ymwneud â'r gofal yn dweud nad

oedd modd iddynt fod yn hyblyg iawn wrth reoli risgiau mewn perthynas â phobl ifanc, ac roedd hyn yn amlwg yn y data ethnograffig hefyd. Er enghraifft, gall mesurau i gadw pobl ifanc yn ddiogel olygu ei bod yn haws i unigolyn ifanc 'fynd ar goll', a gall y broblem hon gael ei gwaethygu gan system sy'n ofn risgiau ac sy'n brin o staff, neu mewn sefyllfaoedd lle nad yw unigolyn ifanc yn teimlo'n hapus neu'n ddiogel yn y cartref.

🗨️ *Credaf mai rhai o'r heriau yw cael y merched eu hunain i ymgysylltu â ni. Rwy'n credu eu bod weithiau'n meddwl ein bod yn gwneud pethau i fod yn sbeitleyd. Weithiau, dwi ddim yn meddwl eu bod nhw'n credu ein bod yn gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Rwy'n credu mai un o'r anawsterau yw rheoli'r risg â phobl ifanc, er enghraifft, am fod yn rhaid eu gweld, yn ddibynnol ar eu risg, bob dwy neu bob pedair awr. Os oes gennych rywun sydd angen ei weld bob dwy awr, weithiau, ni fydd yn ymgysylltu â'r broses honno a bydd yn mynd ar goll a bydd yn teimlo nad ydym yn gwrando arno. Ond dwi'n meddwl ein bod yn gwrando, rydyn ni'n gwrando arnynt bob amser ond dwi'n meddwl weithiau (saib) ei bod yn hollbwysig ein bod yn eu cadw'n ddiogel, ond mae'r holl waith rydyn ni'n ei wneud yn ymwneud â'u cadw'n ddiogel felly dwi'n credu bod ymgysylltu â nhw yn anodd. 🗨️*

– Gweithiwr preswyl

Pan nad yw staff yn gallu rhoi cymorth uniongyrchol un-i-un i ffwrdd o'r cartref, efallai y bydd gadael yn ymddangos fel yr opsiwn gorau ar gyfer yr unigolyn ifanc, ond mae hyn yn broblemus os nad oes ganddo rywle i fynd. Yn yr achosion hyn, roedd y staff o'r farn y byddai'n well rheoli'r risg ar y pryd, fel bod y 'risg' leiaf o'r ddau ddewis yn bosibl. Er enghraifft, rhoi caniatâd i'r unigolyn ifanc fod mewn lle peryglus sy'n

hysbys, a rheoli hyn, yn hytrach na gwrthod caniatâd fel nad 'mynd ar goll' heb wybod ble'r oedd yr unigolyn oedd yr unig ddewis a oedd ar gael i'r unigolyn ifanc. Fodd bynnag, gwnaethant ddisgrifio pa mor aml nad oedd y rhain yn benderfyniadau yr oeddent yn gallu eu cymeradwyo, a byddai gweithwyr cymdeithasol yn aml yn gwrthod caniatáu'r ymatebion hyn neu byddent yn amharod i ddilyn dull dynamig o reoli risgiau ynghylch pobl ifanc.

🗨️ *Yr un peth dwi wedi'i ddysgu yw bod angen i chi adolygu plentyn sy'n destun ffactorau amddiffynnol o oedran ifanc. Felly, mae dweud hynny wrth blentyn sy'n 14; roedd yn rhaid i'r plentyn hwn wnaeth ddod ataf gael cyswllt dan oruchwyliaeth gyda'r ddau riant oherwydd eu hanes. Rwy'n teithio ar hyd a lled [enu'r lle], yn curio ar ddrysau, yn chwilio amdano gan geisio dod o hyd iddo. Yr unig beth roedd am ei wneud oedd gweld ei deulu, mae'n cael cyswllt heb oruchwyliaeth nawr. Felly rydych chi'n argymhell yr hyn sydd orau. Os bydd risgiau, bydd risgiau, ond weithiau, mae'n rhaid cadw'r plentyn mewn cof, y plentyn sydd bwysicaf. Ac ers hynny, 100%. Felly mae'n gweithio, ond mae'n rhaid i chi sicrhau bod pawb ar yr un dudalen â chi i wneud y gwaith hwn, ac mae'n rhaid bod gennych brofiad a sgiliau i wneud hyn. 🗨️*

– Gweithiwr preswyl

Ni siaradodd gweithwyr cymdeithasol ryw lawer ynghylch pam nad oedd dulliau risgiau ac addysgiadol yn gweithio, ond gwnaethant fynegi rhwystredigaeth am yr arfer a ymddangosai'n ddibwrpas o gwrdd â'r unigolyn ifanc bob ychydig wythnosau i drafod risgiau ac ymddygiadau peryglus. Gwnaethant ddisgrifio sut byddent yn cael sgrysiâu ailadroddus gyda phobl ifanc a allai

ciladrodd ac esbonio canlyniadau risgiau, ond ni fyddai hyn yn cael unrhyw effaith ar eu hymddygiadau. Gwnaethant hefyd esbonio bod hyn wedi troi'n arfer, ac er eu bod yn ceisio ac yn dymuno meithrin cydberthnasau â phobl ifanc, nid oedd yn ymddangos fel petai'n effeithiol o ran lleihau ymddygiadau peryglus, gan nad oeddent yn gallu rhoi digon o amser i adeiladu'r ymddiriedaeth a oedd yn hanfodol i ddatblygu cydberthnasau fyddai'n gwneud sgysiau o'r fath yn ystyrion. Yn hytrach, trafodwyd y gwaith hwn o safbwynt bod yn rhywbeth i liniaru risg yn erbyn y gwasanaethau cymdeithasol – a wnaed er mwyn dangos, pe bai unrhyw ddigwyddiad negyddol posibl yn y dyfodol, eu bod wedi gwneud rhywbeth, yn hytrach na'i fod o reidrwydd yn cyflawni rhywbeth cadarnhaol.

Wedi'i osod o fewn cyd-destun craffu cyhoeddus a phroffesiynol helæth, yn hytrach na dulliau sy'n cael eu llywio gan safbwynt sy'n cymryd golwg tymor hwy ar gyfer llesiant unigolyn ifanc, mae'n debygol y bydd y gwaith yn cael ei lywio (yr un faint) gan ddyfarniad posibl y llys ac unrhyw ymchwiliad posibl pe bai sefyllfa waethaf oll yn digwydd; sy'n golygu bod penderfyniadau'n fwy tebygol o gael eu hysgogi gan ddull sy'n osgoi risgiau, gan gynnig gwarchodaeth yn y byrdymor, ond nad yw'n hwyluso canlyniadau cadarnhaol yn hawdd yn y tymor hwy.

## Oedolion arwyddocaol, gweithwyr allweddol ac arfer sy'n seiliedig ar berthynas

Mae'r drafodaeth uchod yn cysylltu â'r dadansoddiad meintiol sy'n dangos effaith a chanlyniadau cadarnhaol y gellir eu cyflawni wrth sicrhau bod gan bobl ifanc berthynas ag oedolyn arwyddocaol a thrwy 'waith uniongyrchol'. Fel y nodir uchod, roedd pob oedolyn wnaeth gymryd rhan a holwyd yn dangos dealltwriaeth bod ymgysylltiad dwys hirdymor gydag unigolion ifanc yn debygol o wneud gwahaniaeth iddynt, o ran eu cefnogi i ddod allan o gydberthnasau ac amgylchiadau lle roeddent yn profi achos o gamfanteisio'n rhywiol.

**66** Mae'n cymryd llawer o amser. Hynny yw, rydych chi'n gwybod cyn ichi ddechrau'r gwaith ei fod yn mynd i gymryd amser, mae angen i chi greu perthynas yn gyntaf, nid ydych hyd yn oed yn mynd i'r afael â rhywfaint o'r pethau peryglus. Dwi ddim, mae rhai pethau ni fyddaf, chi'n gwybod, yn delio â hwy ar unwaith am ei fod yn chwalu'r berthynas ac rydych chi'n gwybod nad ydych yn mynd i unrhyw le. Felly am nifer dda o fisoedd byddwch chi ond yn creu perthynas ... Mae gen i rai sydd am gael mwy na'r hyn allaf ei gynnig, i fod yn onest, rydych chi'n gwybod eu bod am fy ngweld yn amlach ond dwi ddim yn gallu, dwi ddim yn gallu. Ond maent eisiau gallu fy ngweld i'n amlach... Ac mae rhai gwasanaethau yn gyfyngedig o ran amser, fel gwaith sy'n para am chwe mis, wel, mae'n cymryd chwe mis i greu perthynas gadarn felly dwi'n teimlo nad yw hynny o werth. Ni fyddwn [yn atgyfeirio] oherwydd dwi ddim yn meddwl y byddai'n beth da oherwydd eich bod chi'n gwybod y bydden nhw'n mynd, ac roeddwn i'n arfer dweud wrth fy rheolwr, wel, beth yw'r pwynt oherwydd mae'r unigolyn ifanc hwn wedi cael ei wrthod gymaint, a bydd y gweithiwr hwnnw yn mynd mewn am gyfnod o chwech i ddeuddeg wythnos ar y mwyaf ac yna mae'n fater o, dyna ni, mae'n amser i mi symud ymlaen nawr. Nid yw'n ddigon ac nid yw'n mynd i gyflawni unrhyw beth, mae'n mynd i fod yn wrthodiad arall felly byddwn i'n gwneud y gwaith yn lle, ond nid ydych yn gallu gwneud hynny ar gyfer pob achos, ac mae'n rhaid i chi flaenoriaethu mewn rhyw ffordd. **99**

– Social worker

Roedd hyn y tu ôl i lawer o'r rhwystredigaethau roedd llawer o'r gweithwyr cymdeithasol yn eu dangos o ran cyfyngiadau eu rolau o ran darparu cymorth ar gyfer y bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda nhw. Gwnaethant sôn am deimlo bod y blaenoriaethau eraill oedd ganddynt, gan gynnwys blaenoriaethau amrywiol gyda phobl ifanc gwahanol, gan gynnwys y sylw roedd yn rhaid iddynt ei roi i'r rhieni a

brodyr a chwiorydd, yn golygu bod unrhyw waith i greu perthynas yn anodd ac y gellir ei danseilio, yn enwedig o ran y diffyg amser maent yn gallu ei roi er mwyn gwneud y cydberthnasau hynny yn rhai ystyrllon. Dywedodd rhai o'r gweithwyr cymdeithasol a holwyd eu bod yn teimlo, am y rhesymau hyn, y byddai'n well cael rôl fwy cyfyngedig mewn unrhyw 'waith uniongyrchol', fel na fyddent yn ymddangos yn anonest o ran eu hymdrechion i ymgysylltu â phobl ifanc, ac sy'n arwain at y cyfnewidiadau arwynebol hynny gwnaeth nifer eu disgrifio. Roedd y gweithwyr cymdeithasol hyn yn ystyried eu bod yn y sefyllfa orau i chwarae rôl allweddol i oruchwylio'r cynllun gofal a chymorth a chysylltu ag asiantaethau eraill fyddai mewn sefyllfa well i ddarparu'r math o gymorth uniongyrchol sydd ei angen ar bobl ifanc.

Mae'r dadansoddiad yn awgrymu, ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd o dan ofal awdurdod lleol, bod y dull hwn o ymgysylltu 1:1 yn fwy addas ar gyfer y gofaluwr maeth a'r gweithwyr preswyl hynny sy'n gweithredu mewn rôl sy'n cynnig gofal sylfaenol ac yn y gofodau bob dydd lle mae datblygu cydberthnasau yn fwy posibl o lawer. Fodd bynnag, gall eu diffyg ymreolaeth ac awdurdod wrth wneud penderfyniadau bob dydd o ran rheoli risgiau a chefnogi pobl ifanc, a'r cysylltiad cyfyngedig o ran cynllunio cefnogaeth, danseilio'r cydberthnasau hyn. Er enghraifft, gall peidio â chael digon o wybodaeth am y plant sydd yn eu gofal, gorfod gosod cyfyngiadau ar blant neu bobl ifanc, a pheidio â chael gwybod am y rhesymau pam, neu beidio â bod mewn sefyllfa i lywio'r penderfyniadau hynny, ond gan fod yn bryderus ynglŷn ag effaith y penderfyniadau hynny, arwain at anawsterau o ran eu hymdrechion i gefnogi'r bobl ifanc maent yn gofalu amdanynt. Efallai mai'r rheiny sydd yn y gofodau bob dydd sy'n gallu darparu rhywbeth sy'n debycach i'r cydberthnasau y deallir y mae eu hangen ar y bobl ifanc ac y maent yn dymuno eu cael, ond nid oes gan y gofaluwr na'r gweithwyr hyn y llais na'r cylch gwaith i wneud rhai o'r penderfyniadau y maent yn teimlo byddai orau ac a fyddai'n cefnogi'r unigolyn ifanc mewn modd cadarnhaol.

Fodd bynnag, mae hefyd angen ystyried y gofodau a'r cyd-destunau lle byddai modd cynnal y cydberthnasau hyn gyda'r rheiny sydd y tu allan i ofal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cysylltu â phroblemau systemaidd sy'n golygu nad yw'r system, a'r cyd-destun lesiant y mae wedi'i lleoli o'i fewn, yn galluogi ymarferwyr na'n darparu'r adnoddau yn hawdd ar gyfer y mathau hyn o waith 'nad yw'n waith'. Hynny yw, gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael ei yrru gan y berthynas fel y nod, ac sy'n canolbwyntio ar gefnogi'u lesiant.

Mae pwysigrwydd hyn yn cael ei amlygu gan yr hyn yr oedd gan y bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil i'w ddweud. Gwnaethant ddisgrifio sut y mae gormod o weithwyr yn cymryd rhan, ac maent yn ei chael hi'n anodd ymddiried yn y cydberthnasau hyn. Mae nodweddion y cydberthnasau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar eu risg a'u niwed, nid eu hapusrwydd, ac ni roddir unrhyw sylw iddyn nhw na'u diddordebau ac anghenion. Roeddent yn credu bod y gweithwyr yno i 'gael gwybod am rywbeth' yn hytrach na gwrandao ar yr hyn yr oedd ganddynt i'w ddweud.

“ Mae pobl yn gofyn i mi, pam es ti i [lle], pam wnes di hyn, pwy wnes di gurdd â, pwy oedd hwnnw, beth yw ei oedran, beth mae'n gwisgo? Dwi'n teimlo, mam fach, stopiwch, wir nawr, mae'n ormod. Dwi ddim yn ateb y rhan fwyaf o'r amser, ond pan fyddaf yn gwneud, dwi'n dweud celwydd. Dwi wedi dweud wrthynt, maent yn gwybod hyn yn barod, dwi wedi dweud wrthynt dwi ddim eisiau siarad â nhw. Mae hi [y weithwraig] yn dweud 'mae'n rhaid i ti siarad â fi.' Na. Dwi'n mynd i ddweud celwydd wrthot ti drwy'r dydd. ”

– Unigolyn ifanc

Ceir hefyd iaith broffesiynol sy'n llywio cymeriad y cydberthnasau hyn, ac mae'n cyflwyno proffesiynoldeb sy'n gweithio yn erbyn yr ymddiriedaeth ac agwedd berthynol y 'gwaith', a'r berthynas y mae rhywun yn ceisio ei chreu gydag unigolyn ifanc. Mae iaith yn bwysig am ei bod yn llunio'r berthynas, ac mae'n gallu llunio profiadau pobl ifanc.

## Cam-drin rhywiol

Mae'r drafodaeth hyd yn hyn yn ymwneud ag arwyddocâd cam-drin rhywiol ymhlith plant wrth ddeall camfanteisio'n rhywiol. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu nad y gamdriniaeth rywiol ei hun sy'n 'achosi' profiadau o gamfanteisio'n rhywiol yn ddiweddarach. Yn hytrach, bydd y profiadau hyn, os nad ydynt yn cael sylw - naill ai trwy ddiffyg cymorth emosiynol, neu drwy gydberthnasau sy'n gyfyngedig o ran eu gallu i fynd i'r afael ag unrhyw emosiynau allai godi o'r cam-drin (megis teimlo'n ddiwerth, gwrthodiad, dryswch, diffyg gobaith, diffyg synnwyr o reolaeth a gwerth) - yn ffurfio sail ar gyfer bregusrwydd ar gyfer y rheini fyddai'n camfanteisio ar bobl ifanc. Mynegwyd y pryder hwn yn arbennig gan ofalwyr maeth, a oedd yn pryderu nad oedd camdriniaeth rywiol (ac effaith ffurfiau arall o gamdriniaeth) yn cael sylw, a bod y sylw yn cael ei gyfeirio'n bennaf at reoli risgiau yn hytrach na darparu cymorth ar gyfer llesiant plant ochr yn ochr â darparu cymorth therapiwtig sy'n briodol o ran oedran i fynd i'r afael â chanlyniadau emosiynol camdriniaethau o'r fath.

## Cartref oddi cartref?

Canfyddiad allweddol arall o'r dadansoddiad ystadegol oedd pwysigrwydd nifer y symudiadau yn y sefyllfa tai, o ran camfanteisio'n rhywiol yn ddiweddarach a chanlyniadau negyddol diweddarach; megis cam-drin mewn cydberthnasau agos, sefyllfa tai ansefydlog a pheidio â bod mewn cyflogaeth neu addysg. Mae hyn yn cyfleu'r dadansoddiad ansoddol a barn y cyfranogwyr ar yr angen i sicrhau bod plant yn byw yn rhywle sydd er eu buddiannau gorau, gyda'r cymorth gorau ar waith fel y gallant barhau yno.

Mae dadansoddiad o'r ymchwil ansoddol yn awgrymu bod hierarchaeth gofal (lle dylai 'cartref' fod) yn y doethineb y tu ôl i benderfyniadau o ran gofal cymdeithasol; sef mai byw gyda'r rhieni sydd orau, ac os daw'r lle hwnnw'n anniogel, yna aros gyda'r teulu trwy ofal carennydd fydd yr opsiwn gorau ar ôl hynny. Os bydd gofal carennydd yn anniogel, yna cymerir yn ganiataol mai amgylchedd teulu trwy ofal maeth fydd orau ac, yn olaf, pan roddwyd cynnig ar bob amgylchedd byw arall, gofal preswyl fydd yr opsiwn olaf un. Ac eto, o ystyried y lefelau uchel o bob ffurf o gam-drin y mae'r rheiny yn y sampl wedi'i hwynebu, yn ogystal â nifer y rheiny sydd â chydberthnasau camweithredol â'u rhieni a'r rheiny sydd wedi profi chwalfa lwyr yn eu cydberthnasau â'u rhieni (gan gynnwys mynegiad o wrthod), mae'n bosibl na fydd byw gyda'u rhieni er buddiannau gorau rhai plant a phobl ifanc. Mynegwyd y pwynt olaf hwn gan rai o'r gweithwyr cymdeithasol a gwestiynodd y farn mai'r cartref sydd orau bob tro, a mynegodd rhai bryder bod y cynnydd mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant o bosibl yn ganlyniad o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y trothwyon risg ar gyfer cadw plant gyda'u rhieni.

Bu llawer o achosion lle mae pobl ifanc wedi cael eu symud rhwng rhieni ac aelodau o'r teulu sawl gwaith, cyn cael eu tynnu oddi wrthynt a'u gosod mewn gofal maeth a'u tynnu oddi yno, cyn cael eu gosod mewn gwahanol gartrefi maeth a symud rhyngddynt, a hynny yn sgil 'dirywiadau mewn lleoliad' sy'n arwain at leoliad terfynol mewn cartref preswyl i rai pobl ifanc. Ym mron pob un o'r achosion hyn, dim ond os oedd lleoliad wedi 'methu' y gellid cyfiawnhau symud unigolyn, sy'n golygu yr oedd angen i'r sefyllfa gyrraedd pwynt lle roedd cydberthnasau wedi chwalu ac 'ni ellid rheoli ymddygiad y plant mwyach' neu lle ystyrid y rhieni'n risg, cyn gallu tynnu'r plentyn o leoliad (neu ei symud). Awgrymodd y cyfranogwyr mai canlyniad y cylch hwn yw tarfiad, gwrthodiad, ansefydlogrwydd ac ansicrwydd. Hefyd, awgrymwyd ganddynt y dylid lleoli plant a phobl ifanc yn dibynnu ar y cyd-destun a'r rhesymau dros yr angen i gymryd plentyn neu berson ifanc i mewn i ofal awdurdod lleol, yn ogystal â barn

y plentyn hwnnw – yn hytrach na bod yn seiliedig ar y canfyddiad hwn o ofal.

Yn ogystal â hyn, siaradodd y cyfranogwyr am y ffordd y gall y dulliau o ymarfer gyda'r plant pan gânt eu cymryd i ofal awdurdod lleol gyfrannu at 'lwyddiant' neu 'fethiant' lleoliad. Fel y'i trafodwyd uchod, roedd gofalwyr maeth yn rhwystredig ac yn grac ynglŷn â'r diffyg cymorth i bobl ifanc yn eu gofal, yn ogystal â'r diffyg cyngor a chymorth y cawsant hwy ynglŷn â sut orau i gefnogi'r plant yn eu gofal. Er enghraifft, disgrifiwyd gorfod rheoli ymddygiadau rhywiol heriol a oedd, hyd y gwyddant hwy, o ganlyniad i'r gamdriniaeth yr oedd y plant wedi'i hwynebu neu ei gweld, neu hunan-niweidio sylweddol, wrth gael ychydig iawn o gymorth i ddeall sut orau i ymdrin â'r ymddygiadau hyn. Fel y'i hystyriwyd hefyd uchod, trafodwyd sut gall lleoliadau ddirywio yn sgil y dull o greu dynameg sy'n seiliedig ar risg y mae'n rhaid iddynt ei reoli, ac sydd o bosibl yn tanseilio'r berthynas, ynghyd â diffyg unrhyw fathau eraill o gymorth ar gyfer y plant a phobl ifanc.

Ar yr un pryd, gallai canfyddiad o ofal preswyl fel 'opsiwn olaf un' ffurfio rhan o'r broblem. Bydd pobl ifanc sydd wedi'u rhoi mewn gofal preswyl wedi gorfod mynd trwy nifer o amgylcheddau cartref sydd wedi 'methu', ac felly byddant wedi gorfod wynebu sawl achos o darfiad, ansefydlogrwydd ac anniogelwch, yn ogystal â chael eu gwrthod dro ar ôl tro, a bydd ganddynt lefel uchel o angen ac mae'n debygol iddynt ddatblygu diffyg ymddiriedaeth mewn gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Pan gaiff y bobl ifanc hyn eu rhoi gyda'i gilydd, gall hyn greu amgylchedd mewn cartrefi preswyl sy'n cyfrannu at y syniad y dylai gofal preswyl ei hun fod yn 'opsiwn olaf un'.

Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod angen mynd i'r afael eto â'r canfyddiad o ofal preswyl. Negeseuon gan bobl ifanc, staff preswyl a gofalwyr maeth, a'r cyfan wedi'u cyfeirio at bwysigrwydd ystyried gofal preswyl yn gyfartal â gofal maeth o ran bod yn opsiwn cartref-oddi-cartref cyntaf cadarnhaol posibl. Mae'n bosibl mai gofal preswyl sydd fwyaf addas i gefnogi plant am sawl rheswm. Ni all rhai plant a phobl ifanc ymdopi mewn cartref maeth ac nid

ydynt am wneud hynny, ac mae'n bosibl bod yn well ganddynt fod mewn cyd-destun gofal preswyl. Mynegwyd y farn hon gan rai pobl ifanc yn y cartref preswyl a siaradodd am beidio â bod arnynt eisiau esgus bod yn 'deulu mawr hapus' mewn gofal maeth, ac am ei chael yn anodd cael eu rhoi ymysg teulu anghyfarwydd. Rhannwyd y farn hon gan rai o'r oedolion a gyfranogodd, a ddisgrifiodd sut mae strwythur, ffiniau a chymorth mewn gofal preswyl – yn debyg i ofal maeth – ond heb y pwysau o addasu i deulu newydd a chyd-destun teuluol newydd.

**66** *Dwi'n meddwl bod gofal preswyl yn dda iawn i'r plant hynny nad oes ganddynt unrhyw awydd o gwbl i fynd i amgylchedd teulu. Mae ganddyn nhw deuluoedd a does dim diddordeb ganddyn nhw ynddo a dwi'n meddwl bod gofal preswyl yn dda iawn o ran hynny... os oes gennych chi dîm staff da ac nad yw'r staff yn newid yn aml, dwi'n meddwl y gallwch chi gael amgylchedd sydd, nid fel teulu, ond sydd fel rhywbeth cyffredin, a dwi'n meddwl bod angen hynny ar y plant. Ac mae angen rhoi ffiniau ac arferion ar waith, sydd hefyd eu hangen ar y plant.* **99**

– Gweithiwr preswyl

Dylai'r addasrwydd hwn ddibynnu'n llwyr ar y person ifanc, gan y siaradodd y cyfranogwyr ar draws pob grŵp am y ffordd y mae'n debygol y byddai rhai pobl ifanc mewn gofal preswyl wedi ffynnu'n well mewn amgylchedd gofal maeth (ond ni ellid canfod lleoliad a oedd yn fodlon eu cymryd). Eu pwynt oedd y gall y ddau gyd-destun fod yr opsiwn gorau i blant a phobl ifanc, ac ni ddylai'r penderfyniad i leoli gael ei ysgogi gan fethiant.

Ar yr un pryd, mae gan y staff well adnoddau a chymorth mewn gofal preswyl i ymdrin ag anghenion cymorth ac ymddygiadau mwy heriol. Er enghraifft, siaradodd y cyfranogwyr am y ffordd y gellir amsugno'r rhain trwy dîm o bobl a chyda chymorth



goruchwyliol mewn gofal preswyl, sy'n golygu ei bod yn fwy posibl i ofal preswyl ragweld a bod yn sefydlog. Dywedodd gofalwyr maeth yr un peth hefyd; disgrifiwyd y gwaith o reoli sefyllfaoedd gyda phobl ifanc a oedd yn profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol heb ryw lawer o gymorth, neu heb unrhyw gymorth o gwbl, i wneud hyn.

**66** *A dydy gofal preswyl ddim fel hynny. Dwi'n meddwl mai dim ond gyda grŵp mwy o bobl mae modd gwneud hynny gan fod modd iddo gael ei amsugno. Mae rhai plant yn cael effaith wael ar y staff ac yn effeithio arny'n nhw'n emosiynol, ond oherwydd ein bod ni'n rhan o dîm ac y gallwn ni siarad am y sefyllfa a gallan nhw gael goruchwyliaeth neu maen nhw'n cael [cymorth cwnsela gan awdurdod lleol], gallwn ni amsugno hynny. Gallwn ni amsugno'r boen honno gan ei bod yn swydd emosiynol.*

– Residential worker

Mae'r ddau ddadansoddiad yn yr ymchwil yn dangos bod gwneud y penderfyniad cywir y tro cyntaf o ran y lleoliad gorau i blentyn yn cael canlyniadau arwyddocaol i blant a phobl ifanc. Mae'n hollbwysig cefnogi gofalwyr maeth a sicrhau bod pobl ifanc eu hunain yn cael cymorth mewn gofal maeth yn hollbwysig. Mae'n hanfodol tynnu ar fodolau cadarnhaol o ddarpariaeth gofal preswyl, yn ogystal â sicrhau nad ystyrir gofal preswyl (ac na ddaw yn awtomatig) yn 'opsiwn olaf un' i bobl ifanc 'uchel eu risg'.

## 'Cadw'n ddiogel'? Y problemau gyda'r system

Gyda'r fath farn gyffredin ynglŷn â natur y broblem a sut orau i ymateb iddi, pam na all gweithwyr proffesiynol weithredu'r mathau o ymarfer yr hoffent, pan nad yw'r system yn ymddangos fel petai'n eu cynorthwyo i wneud hynny? Ffordd o wneud synnwyr o'r canfyddiadau uchod yw eu hystyried mewn

perthynas â'r cyd-destun gofal cymdeithasol y mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn perthyn iddo.

Caiff gwasanaethau cymdeithasol plant eu tanategu gan system sy'n ymateb i *deuluoedd* a'r angen i fynd i'r afael â *magu plant* a chadw plant yn *ddiogel*. Mae hyn yn creu ffrâm benodol ynghylch ffocws ymarfer cynorthwyol a'r posibiladau amdano gyda phlant a phobl ifanc. Yn gyntaf, nid bwriad y system yw ymateb i anghenion pobl ifanc, y tu hwnt i 'fagu plant' a/neu pan fydd eu hanghenion y tu hwnt i gyd-destun cartref y teulu. Yn ail, ni fwriedir iddi ymateb yn uniongyrchol i gyd-destunau economaidd-gymdeithasol 'problemau magu plant' chwaith, megis trais neu gam-drin domestig neu dlodi. Ar yr un pryd, mae darpariaeth ac adnoddau cyfyngedig ar gyfer atgyfeirio o ran gwasanaethau cymorth a lles ehangach. Yn drydydd, mae ysgogwr cyffredinol ymarfer gofal cymdeithasol yn seiliedig ar risg, hynny yw, y brif flaenoriaeth yw sicrhau diogelwch y plant. Yna, ceir problemau systemig sydd nid yn unig yn ei gwneud yn anodd i weithwyr proffesiynol ymateb i anghenion pobl ifanc o ran camfanteisio'n rhywiol, ond sydd hefyd yn gallu cyfrannu at yr amodau y mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd ynddynt a'u hatgyfnerthu.

Yn y cyd-destun gofal cymdeithasol hwn, y risgiau (ymddygiadol) blaenoriaethol yw'r ffocws, sy'n golygu ei bod yn bosibl na roddir sylw i anghenion llesiant a materion mewnol o ran hunaniaeth, colled a gwrthodiad a all gyd-fynd â'r math o broblemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Mynegodd pawb a gymerodd ran yn yr ymchwil ddealltwriaeth glir ynghylch hyn. Roeddent yn deall bod angen mynd i'r afael â'r problemau sydd wrth wraidd camfanteisio'n rhywiol ar blant. Ar yr un pryd, gallai'r bobl ifanc eu hunain fod yn destun pryder. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y cyfweiliadau â phobl ifanc, gofalwyr maeth a gweithwyr preswyl. Mynegodd y bobl ifanc rwystredigaeth a dichter ynglŷn â'r sylw a gawsant ar eu corff neu ar eu hymddygiad, yn ogystal â'r pryder cyfyngedig amdanynt hwy a'u hapusrwydd. Pwysleisiodd y gofalwyr maeth nad oedd dim cymorth i fynd i'r afael â'r gamdriniaeth,

y gwrthodiad neu'r golled yr oedd y plant wedi'u hwynebu a soniwyd am y ffocws llythrennol ar y problemau amlwg – megis pwysau'r bobl ifanc, eu dannedd a sicrhau eu bod yn cael atalwyr cenhedlu. Siaradwyd am y ffordd roedd systemau ar gyfer cadw pobl ifanc yn ddiogel o ran camfanteisio'n rhywiol yn eu cosbi, er enghraifft, cymryd rhyddid y plentyn neu unigolyn ifanc i chwarae, defnyddio ei ffôn symudol ac ymgysylltu â chyfoedion. Gall y plentyn neu unigolyn ifanc ystyried y camau hyn fel cosb, ond hefyd, roedd y gofalwyr maeth a'r gofalwyr preswyl yn pryderu bod y plant ifanc yn cael eu clustogi mewn ffordd a oedd yn golygu eu bod yn annhebygol o allu datblygu'r adnoddau i reoli risg yn y dyfodol. Mae hyn yn awgrymu bod angen dull mwy dynamig o reoli risg.

Yn yr un modd, siaradodd gweithwyr preswyl am y craffu yr oedd pobl ifanc yn ei wynebu, a'r ffordd y gall lefelau uchel o gofnodi a sicrhau bod yr unigolyn yn iawn, yn enwedig ymysg timau staff llai o faint, olygu eu bod yn canolbwyntio ar reoli ymddygiadau a pheidio â chynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol. Teimlodd y gweithwyr cymdeithasol fod yn rhaid iddynt ymgymryd â gwaith addysgiadol sy'n seiliedig ar 'risg' gyda phobl ifanc, a ystyrir gan bobl yn *arwynebol*. Rhoddodd y gwaith hwn sylw i faterion cymhleth wrth fod yn ffurf o chwarae rôl; yn y modd yr oeddent hwy a'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda nhw yn mynd trwy arfer o ddatgan ac ymarfer ymddygiadau peryglus a'u deilliannau, wrth wybod y byddai'n debygol o arwain at ddim newid heb yr amser i ddatblygu ymddiriedaeth a pherthynas a fyddai'n gwneud y cyfryw gyfnewidiadau'n ystyrllon.

Yn ogystal â hynny, mewn system sy'n gweithio ar sail rheoli risg, mae'n anodd blaenoriaethu pobl ifanc dros blant iau, yn ôl natur y ddealltwriaeth o risg a niwed posibl. Caiff y broblem hon ei gwaethygu gan system sydd â diffyg adnoddau ac sy'n gweithio gyda nifer fawr o deuluoedd sydd â llawer o anghenion. Felly, dim ond pan fydd eu problemau wedi mynd yn anawsterau difrifol y gallai pobl ifanc gael sylw. Rhaid nodi dau beth ynglŷn â hyn. Yn gyntaf, mae'r problemau hyn yn mynd yn anoddach mynd i'r afael â nhw dros amser, ac mae'n bosibl

eu bod wedi'u dwysáu gan system sydd wedi ymateb yn annigonol yn y gorffennol. Yn ail, mae bod yn 'uchel eu risg' yn creu pryder a sylw. Rhoddir blaenoriaeth i bobl ifanc ac felly cânt sylw a chymorth pan fyddant yn ymddwyn mewn modd sy'n uchel ei risg; a phan fydd y risgiau'n lleihau, caiff y pryderon eu lleddfu a bydd y sylw yn lleihau. Gall hyn annog cylch negyddol o sylw. Gall ffocws y pryder ynghylch ymddygiadau pobl ifanc atgyfnerthu'r neges mai'r bobl ifanc eu hunain yw'r broblem. Am y rhesymau hyn, gall y system atgyfnerthu'r broblem.

Yn ogystal â'r uchod, ac yn sgil yr uchod, nid yw'r system yn hwyluso'r mathau o ymatebion sydd eu hangen i ymateb i achosion o gamfanteisio'n rhywiol, neu eu hatal, yn hawdd. Gan gyfleu barn sy'n nodweddiadol o'u rôl a'u gallu cyfyngedig i fynd i'r afael â'r hyn y maent yn ei ddeall o ran graddfa'r broblem, roedd bron pob un o'r gweithwyr cymdeithasol yn gytûn ei bod yn amhosibl mynd i'r afael ag achos o gamfanteisio'n rhywiol, unwaith iddo ddigwydd i unigolyn ifanc, a'r unig ffordd o fynd i'r afael ag ef yw ymateb yn gynharach. Mae'n bosibl mai'r hyn sy'n tanategu'r cyfryw farn yw'r teimlad nad oes dim y gallant hwy ei wneud, yn hytrach na dim y gellir ei wneud. Mynegodd bron pob un o'r gweithwyr cymdeithasol a holwyd rwystredigaeth a rhywfaint o dynghediaeth â chyfyngiadau eu rôl ac nad nhw o bosibl yw'r gweithwyr proffesiynol mwyaf addas i ymateb i bobl ifanc. Siaradwyd am bopeth cadarnhaol a gyflawnwyd ganddynt mewn termau a oedd yn cynnwys *er gwaethaf*, yn hytrach nag *yn sgil* eu gwaith a'r system y maent yn gweithio ynddi. Gall gweithwyr cymdeithasol gael rôl allweddol mewn llywio a chydlynu cymorth uniongyrchol i bobl ifanc.

Roedd y gweithwyr preswyl a'r gofalwyr maeth yn fwy optimistaidd am y *posibiliadau* am ymyriadau a newid cadarnhaol; fodd bynnag, pwysleisiwyd nad oedd ganddynt yr adnoddau na'r cymorth bob tro i gyflawni hyn. Roedd y gweithwyr preswyl am fynd i'r afael â llythrennedd emosïynol pobl ifanc, eu hymdeimlad o berthyn, eu dealltwriaeth a'u gwerth ohonynt hwy eu hunain, a darparu sylw cadarnhaol, un i un, ond roeddent yn ei chael yn anodd gwneud hyn mewn ffordd

ystyrlon. Teimlodd y gofalgwyr maeth fod y sylw ar ddiogelwch sylfaenol yn golygu na chawsant unrhyw gymorth pellach i weithio mewn modd a fyddai'n ymateb i anghenion emosiynol unigolyn ifanc. Roedd hyn yn arbennig o wir pan mae pobl ifanc wedi wynebu esgeulustod a cham-drin rhywiol. Roeddent hefyd yn pryderu am ddiffyg unrhyw gymorth ychwanegol i bobl ifanc y tu hwnt i unrhyw ymweliadau a drefnir gan weithwyr cymdeithasol.

Mewn system a gaiff ei hysgogi gan risg, ceir cyfleoedd cyfyngedig am ddull o weithio sy'n seiliedig ar asedau neu ar lesiant, ac am sicrhau y rhoddir sylw hirdymor i hapusrwydd, cryfhau cydberthnasau ag anwyliad a gweithwyr allweddol, datblygu cydberthnasau â chyfoedion a hybu diddordebau, hobiau a chyfranogiad mewn gweithgareddau. Canolbwyntir ar ymyriadau byrdymor, er mwyn rheoli ymddygiadau a mynd i'r afael â phryderon a ddaw i'r amlwg, yn hytrach na dulliau tymor hwy o weithio. Mae heriau ar gyfer gwaith sy'n seiliedig ar gydberthnasau yn y cyd-destun hwn. Ni ellir diystyru rhywfaint ohonynt a cheir tensiynau y mae'n rhaid eu derbyn a'u rheoli; ond gellid rheoli rhywfaint ohonynt trwy hwyluso darpariaeth tymor hwy ar gyfer pobl ifanc, yn cynnwys ar gyfer y rheiny yn y cyd-destun gofal a'r tu hwnt iddo. Canlyniad arall yw y gall fod gormod o bobl i bobl ifanc greu cysylltiadau â nhw, ac ni all pob un o'r bobl hyn fod yn 'unigolyn arwyddocaol' ym mywyd unigolyn ifanc. Gall pobl ifanc fynd ar goll ymhlith y rhwydwaith hwn o nifer lu o weithwyr proffesiynol, a gall sawl ymyriad neu ymyriadau ailadroddus byrdymor weithio yn erbyn y natur ragweladwy a'r sefydlogrwydd a chydberthnasau parhaus sy'n arwyddocaol o ran atal achosion o gamfanteisio'n rhywiol a delio â hwy.

## CASGLIADAU

Er bod nodau'r ymchwil gwreiddiol yn canolbwyntio ar y canlyniadau i'r rheiny a oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (neu'n wynebu perygl sylweddol o'i brofi), **mae'r dadansoddiad meintiol yn creu darlun gofidus ynglŷn â'r**

**amgylchiadau a phrofiadau bywyd i'r garfan gyfan o bobl ifanc, ni waeth a ydynt wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu beidio.**

**Roedd cydberthnasau gwael â'r teulu, profiadau o gam-drin a tharfu yn gyffredin ymysg yr holl bobl ifanc yn y sampl.** Hefyd, roedd hanner y bobl ifanc â chydberthnasau negyddol yn bennaf â chyfoedion, neu ddim cydberthnasau o gwbl â nhw, roddent yn rhedeg i ffwrdd neu'n troseddu. **Roedd yr holl brofiadau hyn yn fwy tebygol o fod yn rhan o fywydau'r bobl ifanc hynny a oedd wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol neu a oedd yn wynebu perygl uchel o'i brofi. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â'r ddealltwriaeth a ddangosir ymysg yr oedolion a gyfranogodd yn yr ymchwil hwn, a adlewyrchodd ymwybyddiaeth o gymhlethdodau camfanteisio'n rhywiol ar blant o fewn cyd-destun seico-economaidd-gymdeithasol a strwythurol. Mae hyn hefyd yn creu darlun o'r mathau o broblemau y mae ymarferwyr yn ymateb iddynt wrth eu gwaith er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a theluoedd.**

Roedd mwyafrif y bobl ifanc mewn cyflogaeth neu hyfforddiant ac mewn llety sefydlog, fodd bynnag mae ychydig dros hanner y grŵp hwn wedi bod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol fel rhieni ac oedolion ifanc. **Ar y cyfan, roedd gan gyfran fwy o'r rheiny a oedd yn wynebu perygl uchel o brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol, neu a oedd wedi profi achos, ganlyniadau negyddol ar adeg cau'r achos ac ar ôl hynny.**

Mae angen cydnabod rhai meysydd allweddol o ran eu cysylltiad â chamfanteisio'n rhywiol. **Mae symud lleoliad yn gysylltiedig â phrofiadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac â chanlyniadau negyddol i bobl ifanc, ni waeth a ydynt wedi profi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu beidio.** Po fwyaf nifer y symudiadau, y mwyaf fydd y perygl o brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae symud plant o'u hamgylchiadau byw hefyd yn gysylltiedig â pherygl uwch o gael sefyllfa tai ansefydlog a pheidio â bod mewn addysg a/neu gyflogaeth. Roedd hyn hefyd yn ffactor risg allweddol ar gyfer profi cam-drin mewn cydberthnasau agos.

Mae'r canfyddiad uchod yn cyfleu'r canfyddiadau ansoddol a barn y cyfranogwyr ar yr angen i sicrhau bod plant yn byw yn rhywle sydd er eu buddiannau gorau, gyda'r cymorth gorau ar waith fel y gallant barhau yno. Nid byw gyda'r teulu fydd yr opsiwn gorau bob tro i blentyn neu berson ifanc. Mae'r lefelau uchel o gam-drin a gwrthodiad gan rieni y mae pobl ifanc yn y sampl hon wedi'u hwynebu'n awgrymu'r rhesymau pam y bu i bron hanner dreulio amser yn byw o dan ofal awdurdod lleol. **Os bydd angen i blentyn fynd o dan ofal yr awdurdod lleol, bydd rhai plant a phobl ifanc yn ffynnu'n well o dan ofal maeth; ni all rhai plant a phobl ifanc ymdopi ac nid ydynt am fod mewn cartref maeth gyda theulu arall, a byddent yn ymdopi'n well o dan ofal preswyl.** Mae'n bosibl y bydd gan y staff well adnoddau a chymorth mewn gofal preswyl i ymateb i blant sydd â lefel uchel o anghenion cymorth a/neu pan fydd pryder sylweddol eu bod yn profi achos o gamfanteisio'n rhywiol. Gall gofal preswyl a gofal maeth greu awyrgylch cartref yr un mor gadarnhaol i blant ac i bobl ifanc.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod gwneud y penderfyniad cywir y tro cyntaf o ran y lleoliad gorau i blentyn yn bwysig, ac mae hynny'n cael canlyniadau arwyddocaol i blant a phobl ifanc. **Mae'r awyrgylch gorau ar gyfer gofal y tu hwnt i'r cartref yn dibynnu ar yr unigolyn ifanc, ei ddymuniadau, ei anghenion cymorth a'r rhesymau dros yr angen i fynd â phlentyn neu unigolyn ifanc i mewn i ofal awdurdod lleol.** Mae'n hollbwysig cefnogi gofalwyr maeth a sicrhau bod pobl ifanc eu hunain yn cael cymorth mewn gofal maeth. Mae'n hanfodol tynnu ar fodolau cadarnhaol o ddarpariaeth gofal preswyl, yn ogystal â sicrhau nad ystyrir gofal preswyl plant (ac na ddaw yn awtomatig) yn 'opsiwn olaf un' i bobl ifanc 'uchel eu risg'.

**Mae cysylltiad sylweddol rhwng rhywedd a phrofi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac mae merched yn fwy tebygol o'i wynebu.** Ni chafwyd rhyw lawer o sylwadau gan y cyfranogwyr ymchwil ar hyn, ond mae'n awgrymu bod camfanteisio'n rhywiol ar blant hefyd yn ffurf o drais ar sail rhywedd.

**Mae cysylltiad sylweddol hefyd rhwng profiad blaenorol o gam-drin rhywiol a**

**chamfanteisio'n rhywiol ar blant, beth bynnag fo'r rhywedd.** Mae'r rheiny sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol (o fewn y teulu ac/neu'r tu hwnt iddo) fwy na phum gwaith yn fwy tebygol o'i ddioddef eto na'r rheiny sydd heb brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd y rheiny sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol y tu hwnt i'r teulu fwy na chwe gwaith yn fwy tebygol o brofi achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, o'u cymharu â'r rheiny sydd heb fod yn destun cam-drin/trais rhywiol y tu hwnt i gyd-destun y teulu. Mae hyn yn cyfleu'r canfyddiadau ansoddol a'r angen i ystyried yr ymateb tuag at bobl ifanc sydd wedi profi cam-drin a thrais rhywiol, yn ogystal â'r angen i ddarparu cymorth ar gyfer llesiant plant a phobl ifanc, ynghyd â darparu cymorth therapiwtig sy'n briodol i'w hoedran er mwyn helpu i fynd i'r afael â chanlyniadau emosiynol y cyfryw achosion o gam-drin.

Mae'r ffactorau arwyddocaol hyn o'r dadansoddiad meintiol yn cysylltu â'r canfyddiadau ansoddol, yn ogystal â dadl ehangach ynglŷn â phryderon bod yr ymateb i achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn seiliedig ar risg yn gyffredinol ac ymddygiadau peryglus pobl ifanc yn fwy penodol. **Yn ein dadansoddiad, nid oedd cysylltiad sylweddol rhwng yr un o'r ffactorau y gellid eu hystyried yn bobl ifanc yn cymryd risgiau (h.y. rhedeg i ffwrdd, troseddu, ac ati) â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.** Mae hyn hefyd yn cysylltu â phryderon a ddatgelwyd trwy'r dadansoddiad ansoddol am ddull o ddarparu gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar risg, yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar lesiant.

Mae'n hollbwysig sicrhau bod pobl ifanc yn ddiogel rhag niwed, fodd bynnag gall y gwaith hwn eu cosbi, h.y. ni all pobl ifanc fod y tu allan gyda'u cyfoedion na chymryd rhan mewn gweithgareddau penodol, caiff eu ffonau symudol eu cymryd oddi arnynt a sicrhau eu bod yn iawn yn gyson. Gall y ffocws hwn olygu y daw pobl ifanc eu hunain yn destun pryder. **Gall sylw gweithwyr proffesiynol ar risgiau atgyfnerthu rhwystredigaeth neu ddieter pobl ifanc, neu eu hymdeimlad mai nhw yw'r broblem, os nad yw'r ffocws ar newid pethau ar eu cyfer nhw neu eu hamgylchiadau,** ond yn hytrach yn canolbwyntio ar newid eu hymddygiad.

**Mae gormod o gydb berthnasau i bobl ifanc yn seiliedig yn bennaf ar eu risg a'u niwed, ac nid ar eu bodlonrwydd, ac ni roddir sylw iddynt hwy na'u buddiannau na'u hanghenion.**

Gall penderfyniadau gael eu hysgogi gan ddull sy'n osgoi risgiau, gan gynnig gwarchodaeth yn y byrdymor, ond nad yw'n hwyluso canlyniadau cadarnhaol yn hawdd yn yr hirdymor (ac weithiau yn y tymor byrrach). Gall dyfarniad posibl llys, ac unrhyw ymchwiliad posibl pe bai sefyllfa waethaf oll, ysgogi penderfyniadau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ystyried sydd orau i'r unigolyn ifanc ar y pryd, o ystyried yr amgylchiadau. Gall fod ychydig iawn o hyblygrwydd o ran rheoli risg 'ar y pryd' ac o ran caniatáu i bobl ifanc gymryd risgiau'n ofalus a'u paratoi i wneud hynny. **Mae angen dull mwy dynamig o reoli risg, ac mae angen ymchwilio i'r posibl rwydd o sicrhau bod llesiant yn ysgogi'r ymarfer.**

**Roedd bod ag oedolyn cefnogol yn eu bywydau yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar bobl ifanc. Mae gwaith uniongyrchol hefyd yn bwysig, yn ogystal â'r brif ymyrraeth sy'n gwneud gwahaniaeth o ran ei rôl mewn canlyniadau cadarnhaol.** Roedd y rheiny a gafodd y math hwn o gymorth yn llai tebygol o gael problemau o ran camddefnyddio alcohol a chyffuriau, yn llai tebygol o fod mewn tai ansefydlog ac yn llai tebygol o fod yn gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol fel oedolion ifanc ac fel rhieni. Hefyd, canfu'r ymchwil meintiol fod gan gydb berthnasau â chyfoedion gysylltiad sylweddol â chamfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffactor gwarchodol. Roedd y rheiny a oedd â chydb berthnasau â chyfoedion a oedd yn gadarnhaol yn bennaf, yn llai tebygol o gael profiad o gamfanteisio'n rhywiol. Roedd nifer fwy o asiantaethau a oedd yn cefnogi unigolyn ifanc, beichiogrwydd, a nifer fwy o weithwyr cymdeithasol hefyd yn arwyddocaol ymhlith y rheiny nad oeddent yn profi achos o gamfanteisio'n rhywiol. Gyda'i gilydd, mae hyn yn dangos y gall y dulliau hyn weithredu fel 'ffactor gwarchodol' rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant, os bydd pobl ifanc yn cael sylw cefnogol a chydlyniant cymorth gan weithiwr proffesiynol y mae ganddynt berthynas dda ag ef.

Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau ansoddol. Mae ymgysylltiad dwys a hirdymor gyda'r unigolyn ifanc yn debygol o wneud gwahaniaeth iddo. Mae gwaith un i un, megis treulio amser gydag unigolyn ifanc, ei gynnwys mewn gweithgareddau, neu fynd i'r afael â'i hyder a'i hunan-barch yn cael effaith gadarnhaol. Mewn system a gaiff ei hysgogi gan risg, ceir cyfleoedd cyfyngedig am ddull o weithio sy'n seiliedig ar asedau neu ar lesiant, ac am sicrhau y rhoddir sylw hirdymor i fodlonrwydd pobl ifanc, cryfhau eu cydb berthnasau ag anwyliad a gweithwyr allweddol, datblygu cydb berthnasau â chyfoedion a hybu diddordebau, hobiau a chyfranogiad mewn gweithgareddau.

Yn aml, gall y ffocws ar reoli ymddygiadau pobl ifanc sy'n ymwneud â chymryd risg a'r angen i fynd i'r afael â phryderon sy'n dod i'r amlwg a risgiau dybryd olygu y gall ymyriadau byrdymor fod yn ffocws i'r ddarpariaeth. Mae'n bosibl hefyd mai dim ond pan fyddant yn ymddwyn mewn modd sy'n uchel ei risg y rhoddir blaenoriaeth i bobl ifanc a chânt sylw a chymorth. Gall hyn annog cylch negyddol o sylw. Mae heriau'n wynebu gwaith seiliedig ar gydb berthnasau o fewn y cyd-destun hwn. **Mae ymyriadau ailadroddus neu sawl ymyriad byrdymor yn gweithio yn erbyn natur ragweladwy a sefydlogrwydd, yn ogystal â chydb berthnasau parhaus.** Disgrifiodd y bobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn yr ymchwil sut mae gormod o weithwyr ynghlwm wrth rai pobl ifanc ac maent yn ei chael yn anodd ymddiried ym mhob un o'r bobl hyn. Gall fod gormod o bobl i blentyn neu unigolyn ifanc gael perthynas â nhw. Ni all yr holl bobl hyn fod yn 'unigolyn arwyddocaol' ym mywyd unigolyn ifanc. **Gall pobl ifanc fynd ar goll o fewn rhwydwaith o nifer lu o weithwyr proffesiynol.** Siaradodd y gweithwyr proffesiynol am y newidiadau niferus o ran pobl, prosiectau, gofalwyr ac ymyriadau. Gellid rheoli rhai o'r heriau hyn trwy hwyluso cymorth tymor hwy i bobl ifanc (o fewn y cyd-destun cymorth a'r tu hwnt iddo). Mae'n bwysig ystyried sut y daw'r cydb berthnasau hyn i ben, yn enwedig os nad oes unigolyn arwyddocaol arall i'r unigolyn ifanc yn ei fywyd.

**Ni chafodd ymyriadau a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer ymatebion i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, megis gwaith ar gydberthnasau iach a risg addysgiadol, effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o bobl ifanc a gafodd y cymorth hwn.** Mewn rhai achosion, mae hyn hefyd yn gysylltiedig â chanlyniadau negyddol. Mae hyn yn cydfynd â phryderon gweithwyr proffesiynol am effeithiau niweidiol posibl ffocws cul ar broblemau cymhleth sy'n ymwneud â chamdrin. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dweud mai dulliau o 'gadw'n ddiogel' neu gydberthnasau iach addysgiadol yw'r broblem o reidrwydd, ond yn hytrach mae'n awgrymu bod angen ystyried sut a phryd y caiff y rhain eu cyflawni ac y dylai'r cyfryw drafodaethau, i rai pobl ifanc, ddigwydd gyda pherthynas yr ymddiriedir ynddi ac o fewn y cyd-destun hwnnw, gyda chamau cymorth eraill hefyd.

## ARGYMHELLION

1. Mae angen rhoi'r gorau i ganolbwyntio ar risg mewn ymarfer gofal cymdeithasol gyda phobl ifanc, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o lesiant yn sbarduno ymarfer.
2. Dylai'r gwaith asesu ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant roi'r gorau i fod yn asesiad sy'n seiliedig ar risg a throi at fod yn asesiad sy'n seiliedig ar lesiant neu anghenion, sy'n ystyried ac yn canolbwyntio ar anghenion llesiant ehangach plentyn neu unigolyn ifanc a'u hanghenion penodol o ran camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae hyn yn hybu dull o ymarfer sy'n seiliedig ar hawliau plant, yn ogystal â'r angen i gydbwyso hawliau gwarchod a hawliau cyfranogi. Dylid disodli cwestiynau allweddol megis 'a yw hyn yn ddiogel?' â chwestiynau megis 'a yw hyn er buddiannau gorau'r plentyn neu unigolyn ifanc hwn?'.
3. Mae angen systemau, polisiau ac ymarferion gofal cymdeithasol ehangach er mwyn helpu gweithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol i reoli risg yn fwy dynamig. Dylid rhoi cymorth i ymarferwyr wneud penderfyniadau sydd er buddiannau gorau dybryd a hirdymor y plentyn, ac nid er mwyn lleddfu pryder am y risg anhysbys yn y dyfodol y gellid dwyn ymarferwyr i gyfrif yn ei herbyn. Mae angen i hyn gael ei ategu gan weithwyr proffesiynol eraill yn gweithio mewn cyd-destun amlasiantaeth.
4. Dylid cydnabod rôl bwysig gofalwyr preswyl a gofalwyr maeth mewn cynllunio gofal a diogelwch. Dylai'r cyfryw waith cynllunio gofal gynnwys ac ystyried barn y gofalwyr preswyl a/neu ofalwyr maeth sy'n gweithio gyda'r plentyn neu unigolyn ifanc, yn ogystal â barn y plentyn neu unigolyn ifanc ei hun. Dylai hyn ganiatáu am (ail)asesu pryderon, sy'n ymwneud â'r risgiau hynny sy'n digwydd 'ar y pryd' ac ar gyfer y tymor hwy. Dylid cyfleu'r rhesymau dros benderfyniadau i bobl ifanc a'u trafod â nhw.
5. Mae angen penodol i wasanaethau statudol ymateb i blant a phobl ifanc trwy ddarparu (neu gydlynu) cymorth uniongyrchol hirdymor gydag ymarferydd unigol, er mwyn sicrhau na fydd anghenion penodol pobl ifanc yn cael eu hamsugno mewn gwaith gyda rhieni. Mae angen i'r cyfryw gymorth ganolbwyntio ar lesiant yr unigolyn ifanc a datblygu cydberthnasau. Gall gweithwyr cymdeithasol chwarae rôl allweddol yn y gwaith o lywio a chydlynu pwy yw'r asiantaeth gywir a'r unigolyn cywir i ddarparu'r cymorth hwn.
6. Dylid rhoi sylw i nifer yr ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â chefnogi unigolyn ifanc. Mae ymarfer amlasiantaeth yn hanfodol, ond dylai gael ei gydlynu gan un pwynt cyswllt ar gyfer yr unigolyn ifanc, a chydag ef.
7. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darpariaeth ar gael er mwyn i blant a phobl ifanc gael mynediad i gymorth therapiwtig sy'n briodol i'w hoedran er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau emosïynol cam-drin rhywiol, yn ogystal â mathau eraill o gam-drin y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu. Ni all

cyflawni'r cyfryw waith fod yn gyfrifoldeb i wasanaethau plant a gweithwyr cymdeithasol unigol.

8. Mae'r ymchwil hwn yn hybu dull Llywodraeth Cymru o ddarparu addysg ar gydberthnasau a rhywioldeb, yn ogystal â dulliau'r maes dysgu iechyd a lles 'ysgol gyfan' yng Nghymru. Fodd bynnag, fel ymyrraeth benodol ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant, mae cydberthnasau iach addysgiadol a dulliau sy'n seiliedig ar risg yn rhy gul fel unig ymyrraeth a gall gael canlyniadau niweidiol ar gyfer pobl ifanc. Pan gaiff y rhain eu cyflawni, gallant fod yn gadarnhaol os cânt eu darparu yng nghyd-destun perthynas gefnogol hirdymor y gellir ymddiried ynddi gyda gweithiwr proffesiynol neu ofalwr, yn ogystal â chymorth i dynnu sylw at anghenion llesiant ehangach.
9. Mae angen mynd i'r afael â'r canfyddiad bod gofal awdurdod lleol yn rhywbeth sy'n negyddol yn ei hanfod. Mae hyn yn treiddio i lawr i brofiadau pobl ifanc a'u dealltwriaeth o'u sefyllfa o fod dan anfantais. Gall cymryd plentyn neu unigolyn ifanc i mewn i ofal fod yn rhywbeth cadarnhaol er ei fuddiannau gorau, ac mae'n bwysig bod pobl ifanc yn clywed y neges hon.
10. Os bydd angen i blentyn fynd o dan ofal yr awdurdod lleol, bydd rhai plant a phobl ifanc yn ffynnu'n well o dan ofal maeth; ni all rhai plant a phobl ifanc ymdopi ac nid ydynt am fod mewn cartref maeth gyda theulu arall, a byddent yn ymdopi'n well o dan ofal preswyl. Dylai'r awyrgylch gorau ar gyfer gofal y tu hwnt i'r cartref ddibynnu ar y plentyn neu unigolyn ifanc, ei ddymuniadau, ei anghenion cymorth a'r rhesymau dros yr angen i fynd â'r plentyn neu'r unigolyn ifanc hwnnw i mewn i ofal awdurdod lleol.
11. Mae angen ystyried gofal preswyl yn awyrgylch gofal y tu hwnt i'r cartref sydd yr un mor gadarnhaol â gofal maeth i blant a phobl ifanc. Mae'n bosibl nad gofal maeth yw'r awyrgylch mwyaf

priodol bob tro. Mae'n hanfodol tynnu ar fodolau cadarnhaol o ddarpariaeth gofal preswyl, yn ogystal â sicrhau nad ystyrir gofal preswyl plant (ac na ddaw yn awtomatig) yn 'opsiwn olaf un' i bobl ifanc 'uchel eu risg'.

12. Mae angen ystyried y cymorth a ddarperir i ofalwyr maeth, yn enwedig o ran rheoli pryderon heriol ynghylch camfanteisio'n rhywiol, hunan-niweidio ac ymddygiadau rhywiol (niweidiol). Mae'n hanfodol sicrhau bod y plant a phobl ifanc eu hunain yn cael cymorth mewn gofal maeth trwy gymorth therapiwtig a chymorth uniongyrchol ychwanegol, pan fydd ei angen.

## CYFEIRIADAU

Appleton, J. V. (2014), Child Sexual Exploitation, Victimisation and Vulnerability. *Child Abuse Review*. 23, tud 155-158.

Brown, K. 2017. *Vulnerability and young people: care and social control in policy and practice*. Bryste: Policy Press.

Brown, K. 2019. 'Vulnerability and child sexual exploitation: Towards an approach grounded in life experiences', *Critical Social Policy*. doi/abs/10.1177/0261018318824480

Creegan, C., Scott, S., and Smith, S. (2005) *Use Of Secure Accommodation And Alternative Provisions For Sexually Exploited Young People In Scotland*. Yr Alban: Barnardo's yr Alban

Franklin, A., Brown, S., a Brady, G. (2018) 'The Use of Tools and Checklists to Assess the Risk of Child Sexual Exploitation: Lessons from UK Practice' *Journal of Child Sexual Abuse*. 27:8, 978-997.

Hallett, S., Crowley, A., Deerfield, K., Staples, E., Rees, A., (2017) *Adolygiad o'r Canllawiau Statudol ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/171115-review-safeguarding-children-young-people-sexual-exploitation-en.pdf>

Hallett, S. 2017. *Making sense of Child Sexual Exploitation: exchange, abuse and young people*. Bryste: Policy Press.

Kerrigan-Lebloch, E., a King, S. (2006) 'Child sexual exploitation: a partnership response and model intervention'. *Child Abuse Review*. 15 (5), tud 362-372.

O'Neill, M., Goode, N., a Hopkins, K. (1995) Juvenile prostitution: the experience of young women in residential care. *Childright*. 113, 14-16.

Pearce, J.J. (2007) 'Risk and Resilience: A Focus on Sexually Exploited Young People' in Thom, B., Sales, R., a Pearce, J.J (goln) *Growing up with Risk*. Prifysgol Bryste: The Policy Press

Shuker, L. (2013). 'Constructs of safety for children in care affected by sexual exploitation' yn Melrose, M. and Pearce, J. (gol.) *Critical Perspectives On Child Sexual Exploitation And Trafficking*. Hampshire: Palgrave Macmillan

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2008) *Protocol Cymru Gyfan: Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn Perygl o gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol*

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2011) *Amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol: Canllawiau ar Ddiogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*